

# Grŵp Tasg a Gorffen:
# Darpariaeth Tai a Digartrefedd o fewn y Bro Morgannwg



Llety dros dro newydd y Cyngor yn Court Road, Y Barri









VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Cynnwys


| Adran | Rhif Tudalen. |
|---|---|
| 1. Rhagair gan y Cadeirydd | 2 – 3 |
| 2. Crynodeb Gweithredol | 3 – 4 |
| 3. Argymhellion | 4 – 5 |
| 4. Cyflwyniad | 5 – 6 |
| 5. Y Cefndir | 6 – 7 |
| 6. Canfyddiadau'r Adolygiad | 7 – 40 |
| 7. Casgliad | 40 – 41 |
| 8. Rhestr Termau | 42 – 43 |

**Atodiadau**

A Aelodau, Swyddogion Cymorth a Chyfranwyr Eraill

B Rhestr Wirio ar gyfer Cwmpasu

C Amserlen Adolygu

CH Rhestr Cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

D (i) Cyllidebau Digartrefedd a D. (ii) Gwariant a Gyllidir drwy Grant Caledi Llywodraeth Cymru: Gwariant ar Lety Gwely a Brecwast Gwesty a Archebwyd mewn Bloc ar gyfer Cleientiaid Digartref, gan gynnwys dadansoddiad o eitemau Ategol. (Ar gyfer 2020/21 (Ebrill 2020 - Mawrth 2021) a 2021/22 (Ebrill - Medi 2021)).

## 1. Rhagair

Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu’r her o ddarparu tai i’r dinasyddion hynny sy’n eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref, ac mae'r heriau a’r newidiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r achosion o hynny.

Amcangyfrifir ar hyn o bryd fod 244 o aelwydydd yn preswylio ym mhob math o lety dros dro o fewn y Fro, gan gynnwys hosteli, llety gwely a brecwast a gwestai. Mae cyfraddau'r bobl sy'n eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn parhau'n uchel, sef 34 o achosion y mis ar gyfartaledd.

Drwy ei Dîm Tai a'i bartneriaid, mae'r Cyngor wedi cynnig cymorth, amser ac adnoddau sylweddol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn yn ystod y pandemig, gyda llawer o waith yn cael ei gyflawni gan Gyngor Bro Morgannwg ac awdurdodau lleol eraill i gynnig atebion i'r broblem barhaus hon o ran darpariaeth tai a digartrefedd.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 14eg Hydref, 2020, cyflwynwyd yr adroddiad ar y Strategaeth Adfer ar ôl y Coronafeirws. Yn ystod y cyflwyniad cyfeiriwyd at gynlluniau wrth gefn a blaengynllunio ar gyfer digartrefedd a’r rhai mewn llety dros dro yn ystod ‘ail don’ o COVID-19. Arweiniodd hynny at argymhelliad i sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen i ystyried dyfodol y Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd, ac adroddiad pellach ar hyn ym mis ym mis Chwefror 2021 i sefydlu'r Grŵp hwn, y cefais i wedyn fy ethol i'w gadeirio. Cytunwyd y dylai cwmpas ac amserlen adolygu'r Grŵp ganolbwyntio ar y blaenoriaethau cyfredol ac uniongyrchol a wynebir o fewn y ddarpariaeth tai a digartrefedd (o ran dyrannu, deddfwriaeth a chyllid), oherwydd pe bai Llywodraeth Cymru neu unrhyw ffynhonnell arall yn tynnu cyllid yn ôl, byddai hynny'n effeithio ar yr agweddau hyn.

Teimlaf fy mod yn siarad ar ran holl Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wrth ddweud bod ein gwaith wedi bod yn ddiddorol ac wedi mynnu ein sylw, ond yn heriol ar yr un pryd, Diddorol wrth inni ystyried darpariaeth cartrefi a llety i rai sy'n eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref ac mewn angen, a ffasedau amrywiol y broses hon, fel y tai a ddyrannir a'r cymorth a roddir gan y Cyngor a'i bartneriaid. Ond heriol hefyd, oherwydd y costau a'r adnoddau posibl yr oedd eu hangen i adeiladu ar y prosesau hyn a'u gwella, yn ogystal â therfynau a chyfyngiadau eraill ar yr hyn y gellir ei gyflawni'n ymarferol.

O'r cychwyn cyntaf, teimlai'r Aelodau y dylai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ganolbwyntio mwy ar y blaenoriaethau cyfredol, uniongyrchol o flaen y ddarpariaeth tai a digartrefedd ac, yn enwedig, edrych ar y terfynau neu'r cyfyngiadau cyfreithiol ac ariannol, ac o ran dyrannu, yn ogystal â'r cyfarwyddyd a roddir gan Lywodraeth Cymru ynghylch polisi digartrefedd, hy, Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, ond edrych hefyd am atebion mwy beiddgar, y tu allan i'r bocs. Yn sgil hynny, roeddem yn teimlo ei bod hi'n bwysig llunio adroddiad cymedrol a realistig, a gobeithiwn ein bod wedi llwyddo i wneud hynny. Felly, er bod rhai argymhellion penodol a phwysig y gellir eu cyflawni ar unwaith, ceir argymhellion eraill sy'n canolbwyntio ar yr angen am waith pellach i sicrhau bod y dystiolaeth yn gliriach cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am eu cyfraniad sylweddol i'r adroddiad hwn.  Hoffwn hefyd ddiolch i'r swyddogion niferus o Gyngor Bro Morgannwg a roddodd o'u hamser gwerthfawr i friffio'r Grŵp.  Yn olaf, ac yn bennaf oll, hoffwn ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau eraill niferus a wnaeth gyfrannu'n sylweddol i'n gwaith.

Y Cynghorydd Sandra Perkes

Cadeirydd - Grŵp Tasg a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel

## 2. Crynodeb Gweithredol

Wrth adolygu'r ddarpariaeth tai a digartrefedd fel rhan o adferiad Cyngor Bro Morgannwg ar ôl COVID-19, cafodd y Grŵp dystiolaeth o ystod eang o ffynonellau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ymagwedd y Grŵp a'r ymchwil a gynhaliwyd i lywio'r adolygiad.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a chyflwyniadau, yn trafod y meysydd allweddol er mwyn llywio sylwadau ac argymhellion terfynol y Grŵp ar ddarpariaeth, o'r blaenoriaethau dyrannu yn gysylltiedig â darpariaeth Tai a Digartrefedd, hyd at ei ystyriaethau cyfreithiol a chyllidebol (yn enwedig yn sgil y pandemig), yn ogystal â gwybodaeth am y cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir i grwpiau sy'n agored i niwed, a grwpiau eraill, i'w helpu i gael llety parhaol, a thystiolaeth gan dystion 'arbenigol' o fewn y Cyngor, ac yn allanol ynghylch darpariaeth tai a digartrefedd.

O'r dystiolaeth a'r ymchwil a gasglwyd, nodwyd ambell agwedd a fyddai'n allweddol i sicrhau llwyddiant y ddarpariaeth tai a digartrefedd:

- Blaenoriaethau wrth Ddyrannu: i'r Cyngor adolygu'r dull o ddyrannu cartrefi i sicrhau bod teuluoedd digartref yn cael digon o flaenoriaeth i'w galluogi i gael llety sicr a pharhaol, a gofyn am fewnbwn ynghylch gan eraill heblaw swyddogion ynghylch sut i asesu 'rhesymolrwydd' dyrannu tai, yn sgil yr angen posibl i gartrefu pawb sy'n eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref, ond hefyd ystyried tenantiaid presennol sy'n dymuno symud i eiddo gwahanol, yn ogystal â'r preswylwyr hynny sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol.

- Cefnogi ac atal digartrefedd: sicrhau bod pecyn cymorth priodol ar waith er mwyn helpu i ymdrin â gwahanol fathau o fregusrwydd, a bod pobl yn cael cymorth i gael llety, ac i aros yn y llety hwnnw neu symud ymlaen i lety arall, gan dorri'r cylch digartrefedd.

- Ehangu'r stoc tai (yn enwedig tai mwy parhaol), a'r mathau o lety sydd eu hangen ar frys: yr angen i barhau i ganolbwyntio ar lety person sengl cynaliadwy fel y prif ddemograffeg sydd angen tai, a'r angen i edrych ar arfer gorau Awdurdodau Lleol eraill a chydweithio mwy â'r sector preifat, ac i'r Cyngor fabwysiadu dull arloesol o gynyddu'r mathau hynny o dai o hyn allan.

- Cyllid: i'r Cyngor ystyried trefniadau cyllido cyfredol, ac ystyried ffrydiau cyllid ychwanegol posibl gan Lywodraeth Cymru (LIC) neu gyrff eraill.
- Hefyd, byddai'r fframwaith deddfwriaethol a'r canllawiau neu'r cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru yn ffactor hollbwysig a fyddai'n dylanwadu ar y modd y byddai'r Cyngor yn gweithredu'r camau a'r newidiadau angenrheidiol i'w ddarpariaeth tai.

## 3. Argymhellion

1) Bod y Cyngor yn parhau i gadw cynlluniau 'oddi ar y silff' i ddatblygu llety dros dro ac, yn rhan o'i raglen datblygu tai, yn rhoi'r flaenoriaeth i gynnwys adeiladau newydd a chaffael eiddo sy'n bodoli eisoes.
2) Bod y Cyngor yn adeiladu ar ac yn datblygu'r ymagwedd 'Tai yn Gyntaf' ar gyfer pobl sy'n ddigartref a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.
3) Bod y Cyngor yn sicrhau darpariaeth well i bobl sydd yn 'barod am swydd' i'w helpu i drosglwyddo o fudd-daliadau i gyflogaeth, er mwyn cadw eu llety presennol neu eu symud i lety mwy parhaol os yw'n briodol. Dylai hyn gynnwys ystyried cynyddu'r cyfleoedd i denantiaid geisio cyfleoedd cyflogaeth a phrentisiaeth o fewn adrannau amrywiol y Cyngor a'i wasanaethau.
4) Bod y Cyngor yn darparu llety modiwlaidd pellach gyda chymorth dwys, cofleidiol, fel y gwelwyd yn natblygiad Court Road.
5) Bod y Cyngor yn sicrhau rhagor o ddarpariaeth ar gyfer llety i bobl hŷn (yn enwedig yn y Fro wledig), er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i denantiaid hŷn mewn cartrefi mwy symud i gartrefi llai, gan ryddhau'r cartrefi mwy hynny i'w defnyddio gan bobl sy'n byw mewn tai sydd bellach yn anaddas (gan gynnwys y preswylwyr hynny sy'n byw mewn llety dros do a llety i'r digartref).
6) Bod y Cyngor yn cynnal adolygiad o'i asedau a thai presennol, hy, adolygiad o strategaeth dad-ddynodi'r Cyngor er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl sengl, ac ystyried adolygu unedau a ddad-ddynodwyd eisoes, yn ogystal ag ymchwilio i'r posibilrwydd o drosi adeiladau eraill i greu'r mathau o dai y ceir yr angen mwyaf amdanynt.
7) Bod Cyngor Bro Morgannwg yn ymchwilio ar raddfa ranbarthol i'r posibilrwydd o gydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill i brynu unedau Dulliau Adeiladu Modern, i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gwneud y defnydd mwyaf darbodus o arian ac i gynyddu cyflymder a graddfa tai i gleientiaid digartref.
8) Bod y Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o gyflymu'r broses rhwng cynllunio ar gyfer safleoedd tai cymdeithasol a adeiledir o'r newydd a'r adeg pan fydd y tai hynny'n barod i denantiaid symud i mewn iddynt, hy cwblhau'r gwaith o adeiladu'r unedau tai hynny oddi ar y safle. Yn rhan o hyn, dylai'r Cyngor edrych ar enghreifftiau o arfer gorau mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a thu hwnt.
9) Bod y Cyngor yn adeiladu cartrefi niwtral o ran carbon ac yn buddsoddi yn y stoc wreiddiol i'w gwella hyd at lefel debyg lle bo modd, er mwyn sicrhau llety cynaliadwy a lleihau tlodi tanwydd.
10) Bod y Cyngor yn ystyried rhoi'r flaenoriaeth i breswylwyr lleol yn y cam cyntaf wrth ddyrannu tai ar safleoedd gwledig, ond wedyn yn ystyried dyrannu'r tai hynny i

breswylwyr o rannau eraill o Fro Morgannwg os nad oes digon o alw neu flaenoriaeth o fewn yr ardal leol ei hun.

11) Bod y Cyngor yn adolygu'r cyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth Siop Un Stop ar Heol Holton, hy, cynnwys gwasanaethau'r 3ydd sector yn fwy, i gyd-fynd â'r gwaith a gyflawnir gan Pobl. Yn rhan o hyn, dylid ystyried hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau sydd ar gael i holl breswylwyr Bro Morgannwg.
12) Bod y Cyngor yn datblygu protocol gwaredu tir sy'n rhoi'r flaenoriaeth, wrth waredu tir dros ben sy'n eiddo i'r Cyngor, i ddefnyddio'r tir hwnnw i godi tai Cyngor newydd, yn ogystal â phrynu tir yn y farchnad breifat, ac ar ben hynny, fod swyddogion y Cyngor yn cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod tir dros ben sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus.

## 4. Cyflwyniad

Wrth ystyried eu rhaglenni gwaith ar gyfer 2020/21 gofynnwyd i bob un o bum Pwyllgor Craffu'r Cyngor gyflwyno eitemau i'w hystyried i'w hadolygu, a'r dull mwyaf priodol o graffu ar bob un o'r rhain, gan gynnwys "gorchwyl a gorffen".

Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2020, nododd y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel fod darpariaeth tai a digartrefedd, yn rhan o adferiad Cyngor Bro Morgannwg ar ôl COVID-19, yn faes y dylai'r Pwyllgor ei adolygu, ac y dylid ystyried sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r perwyl hwnnw. Mae'r argymhelliad hwn yn unol â'r Strategaeth Adfer ar ôl y Coronafeirws a fabwysiadwyd gan y Cyngor (cofnod C334 21 Medi 2020) lle cytunwyd yn benodol i weithio gyda phartneriaid i gynnal y gostyngiad a sicrhawyd mewn digartrefedd yn ystod yr argyfwng.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gweithgor Gorchwyl a Gorffen ar 20 Ebrill 2021, pan gwblhawyd a chytunwyd yn derfynol ar gwmpas a chanlyniadau adolygiad y Gweithgor, gyda phwyslais cryf ar y blaenoriaethau cyfredol ac uniongyrchol o fewn y ddarpariaeth tai a digartrefedd (o ran dyrannu, deddfwriaeth a chyllid), oherwydd gallai penderfyniad Llywodraeth Cymru, ymhen amser, i dynnu cyllid yn ôl ar gyfer llety brys (ee, defnyddio llety gwely a brecwast) effeithio ar y meysydd hyn.

- Ffocws: Archwiliad o'r ddarpariaeth tai a digartrefedd yn rhan o'r cam adfer ('Cam 2') y bydd y Cyngor yn ei gyflawni yn dilyn pandemig COVID-19.
- Diben ac Amcanion: Bydd yr adolygiad yn ceisio trafod agweddau allweddol ar ddarpariaethau a pholisïau tai a digartrefedd cyfredol a'r dyfodol agos - blaenoriaethau dyrannu, heriau neu ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg o safbwynt deddfwriaeth neu gyllid - a chynnig argymhellion ynghylch sut i weithredu, ymdrin neu wella'r rhain i sicrhau bod modd parhau i gynnig llety dros dro a pharhaol i bobl ddigartref wedi i ddeddfwriaeth frys Llywodraeth Cymru ddod i ben.
- Canlyniadau a Ddymunwyd: roedd y rhain yn cynnwys:
    - Dealltwriaeth o sefyllfa gyllido gyfredol y Cyngor o ran darpariaeth tai a digartrefedd.

- Deall y statws cyfreithiol yn gysylltiedig â darpariaeth tai a digartrefedd - yr hyn y gall/na all y Cyngor ei wneud yn gyfreithiol yn y maes hwn wedi i'r ddeddfwriaeth frys ddod i ben, ac effaith bosibl y newidiadau hynny ar y ddarpariaeth tai a digartrefedd sydd ar waith ar hyn o bryd yn sgil COVID-19.
- Yr angen i adolygu blaenoriaethau dyrannu yn gysylltiedig â darpariaeth tai a digartrefedd ac i awgrymu gwelliannau os oes angen.
- Yr angen i adolygu, deall ac awgrymu gwelliannau i'r cymorth a'r gefnogaeth a roddir i grwpiau sy'n agored i niwed, a grwpiau tebyg, i'w helpu i gael llety parhaol.
- Y cyfle i adolygu 'arfer gorau' awdurdodau lleol eraill ac/neu debyg, yn ogystal â thystiolaeth gan dystion 'arbenigol' oddi mewn neu oddi allan i'r Cyngor (fel Shelter Cymru a Chyngor ar Bopeth).

Dangosir aelodaeth y Grŵp yn **Atodiad A**, ynghyd â Swyddogion y Cyngor a'r llu o sefydliadau a phobl eraill sydd wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r adolygiad, yn ogystal â rhestr lawn o gwmpas diwygiedig yr adolygiad o'r Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd yn **Atodiad B**, ac amserlen ddiwygiedig y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer ei adolygiad yn **Atodiad C**.  Ceir rhestr o gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn **Atodiad CH**.

## 5. Y Cefndir

Cyn pandemig COVID-19 gosodwyd darpariaethau Digartrefedd yn Neddf Tai Cymru 2014 (DTC 2014) sy'n mynnu bod yn rhaid i awdurdod lleol gynnig cymorth i rai sy'n gymwys i dderbyn cymorth (a61) (yn gyffredinol mae hyn yn golygu nad yw'r bobl yn bobl dramor/yn destun rheolaeth fewnfudo), sy'n ddigartref neu'n wynebu bod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod (a55) sydd ag angen blaenoriaethol (a70), ac â chysylltiad lleol (a80 ac 81).

Yn adran 68 o DTC 2014 nodir bod yn rhaid darparu llety dros dro os oes gan yr awdurdod lleol reswm i dybio y gallai ymgeisydd fod yn ddigartref, yn gymwys i dderbyn cymorth a bod ag angen blaenoriaethol am lety.

Os yw'r holl agweddau uchod wedi'u bodloni, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu llety, hyd nes y bo'n gallu cyflawni ei ddyletswydd drwy gynnig llety addas (a75) sydd ar gael am o leiaf 6 mis.  Dim ond pan gaiff y llety ei wrthod yn afresymol neu ei dderbyn, y gellir ystyried bod y ddyletswydd wedi'i chyflawni.

Yn ystod pandemig COVID-19, cydnabu'r llywodraeth na allai pobl a oedd yn ddigartref ar y stryd gysgodi'n ddiogel rhag y feirws, ac na allent o bosib ganfod rhywle i hunanynysu a chadw'n lân ac ati. Argymhellwyd felly, o fewn y dogfennau canllaw a luniwyd, y dylid ystyried yn ddiofyn fod gan bawb a oedd yn ddigartref ar y stryd angen blaenoriaethol, a'u bod yn gymwys i dderbyn cymorth. Roedd hyn yn cynnwys pobl heb gysylltiad lleol, a phobl a allai fod heb hawl i dderbyn arian cyhoeddus.

Y prif newid o hynny allan oedd peidio cynnwys angen blaenoriaethol fel ffactor yn y broses asesu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn awyddus i atal pawb a gafodd lety brys rhag dychwelyd i'r strydoedd, ac i geisio rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn gyffredinol, ac wedi gwneud sawl datganiad cyhoeddus yn addo hynny.

Mewn ymateb i'r pandemig, archebodd Cyngor Bro Morgannwg lety brys mewn amryw o westai ar draws y Fro. Nid oedd y gwestai'n gallu defnyddio eu llety ar gyfer ymwelwyr gan fod y pandemig yn atal pobl rhag symud o gwmpas. Roedd hi'n amlwg y byddai'n debygol y byddai gwestai am gael eu llety yn ôl, ac y byddai'n rhaid i'r Fro ddatrys sut i gartrefu'r bobl hyn am y tymor hir.

### 6. Canfyddiadau'r Adolygiad

Yn ystod yr adolygiad, mae'r Grŵp wedi ystyried y canlynol:

- Blaenoriaethau Dyrannu yn gysylltiedig â'r Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd.
- Trosolwg Cyfreithiol o'r Broses Ddigartrefedd ac Effeithiau'r Pandemig ar y Broses honno.
- Sefyllfa Gyfredol y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Tai a Digartrefedd.
- Diweddariad(au) ynghylch rhoi cymorth a chefnogaeth i grwpiau sy'n agored i niwed, a grwpiau eraill, i'w helpu i ganfod llety parhaol gan:

(i) Y Gwasanaethau Cymdeithasol;

(ii) Y Gwasanaethau Tai; a

(iii) Pobl (darparydd Tai a Chymorth Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg).

- Trosolwg o opsiynau posibl i ehangu llety dros dro a pharhaol yn y tymor byr.
- Diweddariad(au) a thystiolaeth gan dystion 'arbenigol' oddi mewn ac oddi allan i'r Cyngor ynghylch darpariaeth/cymorth tai a digartrefedd gan:

(i) Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro;

(ii) Shelter Cymru; a

(iii) Tîm y Sector Preifat (Cyngor Bro Morgannwg).

- Diweddariad gan Reolwr Gweithredol y Cyngor ar gyfer Tai'r Sector Cyhoeddus ynghylch opsiynau posibl i ymdrin â'r ddarpariaeth tai a digartrefedd.
- Trosolwg / diweddariad gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru (LIC) ar y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn LIC mewn perthynas â mentrau ailgartrefu a strategaethau cysylltiedig, ac ati.
- Diweddariad gan gynrychiolydd Cymdeithas Tai Newydd.
- Diweddariad gan Swyddog Adran 106 y Cyngor.
- Crynodeb o Waith y Grŵp ac Asesiad o'r Themâu a'r Materion a Godwyd.
- Adolygiad terfynol o adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Darpariaeth Tai a Digartrefedd ym Mro Morgannwg.

**Blaenoriaethau dyrannu**

Yng nghamau cynnar yr adolygiad, rhoddwyd trosolwg i'r Grŵp or sefyllfa gyfredol, yr heriau a'r problemau cyfredol o ran dyrannu, yng nghyswllt darpariaeth tai a digartrefedd.

Rhannwyd strwythur gwasanaethau Atebion Tai o fewn y Cyngor yn dri maes - pob un â'i rôl unigryw ei hun:

1. Y Gwasanaeth Atebion Tai  Roedd hwn yn ymdrin yn uniongyrchol â digartrefedd, gan gynnwys cynnig cyngor, cymorth ac atebion i'r perwyl hwnnw, yn ogystal â mesurau mwy ataliol.

2. Darparu Llety Dros Dro  Roedd hyn yn cynnwys rheoli Hostel Tŷ Iolo, yn ogystal â darparu llety dros dro yn uniongyrchol (ee, drwy ddatblygiad Depo Court Road a ddefnyddiai ddulliau adeiladu modern) a'r stoc o dai eraill sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd, a hefyd yn anuniongyrchol (ee drwy landlordiaid y sector preifat a llety gwely a brecwast yn Tadross ar Heol Holton, Y Barri, Holiday Inn Express a Gwesty'r Celtic International yn y Rhws); a

3. Gwasanaeth Homes4U, a oedd, ar y cyd â phartneriaid yn y sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (fel yr Hafod a Thai Wales & West) yn canolbwyntio ar ddyrannu cartrefi i breswylwyr o fewn Bro Morgannwg.  Gan fod y gwasanaeth yn defnyddio Cofrestr Tai Gyffredin ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, nid oedd angen i bobl lenwi ffurflenni ar wahân wrth ymgeisio am dai.  Yn wahanol i Awdurdodau eraill, roedd trefniadau i osod yn seiliedig ar system ddewis yn hytrach na phwyntiau.  Roedd tai'n cael eu dyrannu ar sail bandiau lliw yn ôl angen/blaenoriaeth (Aur = yr angen mwyaf a'r mwyaf o frys, ee cartrefi eithriadol o orlawn, hyd at Arian = angen canolig, ac yn olaf Efydd = dim neu'r lefel isaf o anghenion tai uniongyrchol wedi'u nodi). Roedd hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn nifer a chyfran y bobl a oedd yn aros ar restr aros Homes4U (cyfanswm o 6,396 o deuluoedd ar y rhestr aros, gyda 60% yn y band Efydd, a dim ond canrannau bach yn disgwyl yn y bandiau Aur ac Arian).

Bu cynnydd yn y defnydd o lety dros dro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (cynnydd o 700% yn sgil y pandemig), gyda 90% o bobl yn y math hwnnw o lety yn bobl sengl, a chanran uchaf yn achosion cymhleth, ee, yn agored i niwed, iechyd meddwl, yn ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol.

Ar gyfartaledd, roedd pobl sengl yn treulio dros flwyddyn mewn llety dros dro (a theuluoedd yn symud ymlaen ynghynt).

Darparodd y Cyngor wasanaethau ac atebion Tai ar y cyd â’r sector preifat (fel Cynllun Prydlesu Cartrefi a’r sector rhentu preifat), wrth i Ddeddf Tai Cymru 2014 ganiatáu i’r Cyngor drosglwyddo ei ddyletswyddau tai i’r sector preifat, gan fod y galw am eiddo Cyngor yn fwy na'r cyflenwad a oedd ar gael.

Roedd y Gwasanaeth Atebion Tai yn gweithio ar ddull 'Tai yn Gyntaf' a olygai ddarparu tai 'cynaliadwy', er enghraifft drwy gael gwared â chynifer o rwystrau a chyfyngiadau sy'n atal pobl rhag cael tŷ ag sy'n bosibl, drwy ymgynghori'n agos â gwasanaethau Cefnogi Pobl ac RSLs.

Yn gysylltiedig â'r dull uchod, cafwyd ffocws cryf ar atal digartrefedd, ee, cyfryngu mewn anghydfodau â landlordiaid neu'r gymdogaeth, er mwy lleihau'r risg y bydd pobl yn cael eu tynnu neu eu troi allan o'u cartrefi.

O strwythur roedd y tîm Atebion Tai yn gymharol fach, ond yn cynnwys amrywiaeth eang o rolau a chyfrifoldebau, o wasanaethau dyrannu Homes4U hyd at gydgysylltu a chaffael stoc tai o'r sector rhentu preifat.

O ran maint digartrefedd yn y Fro, roedd yr Awdurdod (fel Cynghorau eraill yng Nghymru) yn gweld lefelau sylweddol o ddigartrefedd, gyda'r lefelau gwirioneddo wedi'u cuddio i ryw raddau gan ddigartrefedd 'cudd', fel pobl sy'n cysgu ar soffas.

Roedd tîm Atebion Tai y Fro wedi perfformio'n eithriadol o dda i leihau digartrefedd o'i gymharu â thimau tebyg yn rhannau eraill o Gymru.

O bell ffordd, pobl sengl oedd i gyfrif am y pwysau ar y ddarpariaeth tai, gyda 55% o ymgeiswyr Homes4U yn disgwyl am gartrefi un ystafell wely.

Soniwyd hefyd am yr angen parhaus i ddarparu llety â chymorth, ee i ddioddefwyr cam-drin domestig, pobl a anghenion cymhleth neu bobl ifanc drwy gyrff amrywiol (Pobl, Llamau, cartrefi Anableddau Dysgu a Platfform, ac ati) a defnyddio gwasanaethau cymorth ar-safle neu yn ôl yr angen.

Rhoddodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus hefyd amlinelliad o'r problemau a'r cwestiynau a oedd yn rhyng-gysylltiedig ac yn dod i'r amlwg o ran dyrannu tai, i'r Grŵp gael eu hystyried a chynnig sylwadau ar hynny:

- Y cynnydd yn y nifer a oedd yn dweud eu bod yn ddigartref a'r ffaith bod categorïau pobl ag angen blaenoriaethol am lety wedi ehangu yn sgil dileu'r cymal 'bwriadol' o fewn deddfwriaeth bresennol, a chyda hynny,
- Bu cynnydd yn y defnydd o lety dros dro (fel gwely a brecwast a gwestai) ond ceir risg sylfaenol y gallai'r trefniadau hynny ddod i ben ar ôl mis Medi 2021, gyda'r posibilrwydd y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn dod i ben a thwristiaeth yn dychwelyd; yn ogystal â hynny, roedd galw pellach yn cael ei achosi yn sgil
- Yr angen i symud pobl ymlaen o lety dros dro i lety mwy parhaol a'r her barhaus i geisio gweithredu hyn; a'r
- Angen i ddarparu tai i'r bobl hynny ag anghenion arbenigol neu gymhleth; roedd y rhain yn eu tro yn arwain at y cwestiynau canlynol:
    - A allai'r polisi dyrannu presennol ymdrin â'r heriau uchod ac, yn enwedig, helpu i symud niferoedd mawr o bobl sengl o lety dros dro i gartrefi mwy parhaol?
    - Pa fathau o dai yr oedd angen i'r Cyngor eu hadeiladu o hyn ymlaen?

- Sut y gallai'r Cyngor fanteisio ar y sector preifat, a gwneud y mwyaf o'i gapasiti, i gartrefu ei gleientiaid a'i breswylwyr?

Dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus hefyd y byddai nifer o brosiectau tai/tai cymdeithasol ar gael yn fuan, a oedd yn cynnwys Cymdeithasau Tai a'r Cyngor. Byddai cynlluniau adeiladu pellach yn dibynnu ar nifer o ffactorau, fel cyllid A.106, a swm y Grant Tai Cymdeithasol a fyddai'n cael ei ddarparu i'r Fro. Fodd bynnag, roedd heriau posibl yn gysylltiedig ag ailgartrefu nifer fawr o bobl sengl agored i niwed o fewn un ardal neu ystâd, gan gadw 'cymunedau cytbwys' ar yr un pryd.

O ran y cwestiwn a godwyd ynghylch cartrefu nifer fawr o bobl sengl, rhai ag anghenon cymhleth a chyn-droseddwyr o fewn ystâd neu gymuned yn llwyddiannus, ac iddynt integreiddio'n effeithiol, esboniwyd bod asesiad risg yn cael ei gynnal ar grwpiau fel cyn-droseddwyr a oedd wedi'u rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar, a bod y grwpiau hynny'n cael eu rheoli drwy'r broses Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd - dull a oedd yn gyffredin ymhlith yr holl Awdurdodau. Roedd gan bob Cyngor gyfrifoldeb i gamu i'r adwy a helpu i gartrefu'r unigolion a'r grwpiau hynny. Byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol yn un o'r cyfarfodydd nesaf, a gallent esbonio'r broes o asesu risg pobl ag anghenion neu broblemau eraill wrth eu cartrefu yn y gymuned,

O ran pobl a fyddai angen mynd yn ôl ar y rhestr tai pe bai eu hamgylchiadau personol yn newid, er enghraifft, pe baent yn symud i dŷ un ystafell wely ac wedyn yn dechrau teulu, awgrymwyd y dylid diogelu'r prosesau hynny i'r dyfodol er mwyn cyflymu a gwella'r broses o ddyrannu tai. Mewn amgylchiadau o'r fath eglurwyd y byddai'n rhaid i denant aros yn yr eiddo am flwyddyn cyn gallu mynd yn ôl ar y rhestr tai. Byddai cyfleoedd fel hyn i symud i gartrefi mwy yn fuddiol, oherwydd byddai hynny'n rhyddhau cartrefi 1-2 ystafell wely.

**Trosolwg Cyfreithiol o'r Broses Ddigartrefedd ac Effeithiau'r Pandemig ar y Broses honno**

Rhoddodd Uwch Swyddog Cyfreithiol amlinelliad i'r Grŵp o'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â'r broses digartrefedd a sut roedd COVID-19 wedi effeithio ar hyn.

Cyn y pandemig, roedd darpariaethau digartrefedd wedi'u nodi yn Neddf Cartrefi cymru 2014, a amlinellai'r meini prawf cymhwystra i'r Cyngor ddarparu llety i'r bobl hynny a wynebai ddigartrefedd (hynny yw, eu bod yn ddigartref neu'n wynebu digartrefedd o fewn 56 diwrnod, ag angen blaenoriaethol ac â chyswllt lleol). O fodloni'r meini prawf hynny, roedd gan y Cyngor ddyletswydd i roi llety iddynt nes y gallai gyflawni ei ddyletswydd drwy gynnig llety a oedd yn addas ac ar gael am o leiaf 6 mis. Dim ond ar ôl i'r llety gael ei dderbyn neu ei wrthod yn afresymol y gellid ystyried bod y ddyletswydd wedi'i chyflawni.

Oherwydd y pandemig, cyhoeddwyd canllawiau ledled y DU i Gynghorau ystyried yn ddiofyn bod unrhyw unigolyn a oedd yn ddigartref ar y stryd yn gymwys i dderbyn cymorth i gael llety, hyd yn oed os nad oedd ganddo gysylltiad lleol, neu nad oedd yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf cymhwystra eraill a fodolai cyn y pandemig.

Oherwydd y costau uchel a achoswyd yn sgil gweithredu'r canllawiau newydd, sefydlodd LlC gronfa gwerth £10m, a defnyddiodd y Cyngor ei gyfran er mwyn helpu i ganfod llety ychwanegol, ee, drwy ddefnyddio llety gwely a brecwast a gwestai.

Yn dilyn hynny, amlinellodd Llywodraeth Cymru (LlC) ddyhead i atal pobl rhag dychwelyd i fod yn ddigartref ar y stryd. Yn anochel, byddai pwysau sylweddol ar y Cyngor ac ar Awdurdodau eraill i fodloni'r dyhead, yn ariannol a thrwy ganfod llety. Ailadroddodd yr Uwch Swyddog Cyfreithiol yr heriau a grybwyllwyd yn flaenorol yn y cyflwyniad ar ddyrannu, ynghylch y ffaith bod cyllid LlC yn dod i ben ar ôl mis Medi, ac y byddai busnesau gwely a brecwast a gwestai yn dymuno cael eu hystafelloedd yn ôl wedi i'r cyfyngiadau lacio. Fel y nodwyd yn flaenorol, pobl sengl oedd nifer fawr o'r rhai hynny a oedd yn ddigartref/mewn llety dros dro. Roedd y rheiny, ynghyd â'r unigolion a oedd yn dweud e bod yn ddigartref ac na fyddent wedi bod yn gymwys i'w cartrefu'n flaenorol (fel unigolion o'r tu allan i'r Fro), yn ysgogi niferoedd llawer mwy o bobl ar y rhestrau aros tai. Golygai hyn y byddai'r Cyngor o hyn allan yn wynebu her sylweddol o ran cyllid a thai. Fodd bynnag, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â LlC ynghylch cyllid, a hefyd â'r perchnogion gwely a brecwast / gwestai ynghylch estyn archebion bloc am ystafelloedd y tu hwnt i fis Medi (mae hyn bellach wedi'i ymestyn i 2022).

Roedd y Cyngor hefyd yn wynebu heriau cyfreithiol ychwanegol, gan gynnwys:

- Roedd LlC wedi atal achosion o adfeddiannu a throi tenantiaid allan dros dro ers rhai misoedd. Roedd yr ataliad dros dro ar droi tenantiaid allan yn dal yn ei le, ond byddai'n dod i ben yn fuan (daeth yr ataliad i ben yn ddiweddarach ar 1 Gorffennaf). Byddai hyn yn golygu cynnydd anochel yn nifer y bobl a oedd yn eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref i'r Cyngor, ac a ofynnai am gymorth.
- Roedd LlC hefyd wedi newid y rhybudd y byddai landlordiaid preifat yn gorfod ei roi i droi tenantiaid allan, o 1-3 mis i 6 mis; gwnaeth hynny drwy ddefnyddio pwerau dros dro a roddwyd o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020. Cafwyd cynnig i gadw'r cyfnod rhybudd estynedig yn barhaol, a fyddai'n rhoi mwy o amser i bobl dalu, neu ddefnyddio rhyw ffordd arall i ddatrys eu dyledion a'u hôl-ddyledion i landlordiaid. Fodd bynnag, roedd perygl y byddai hyn yn peri i landlordiaid fod yn amharod i osod eu heiddo.

I gloi, roedd y Cyngor ar hyn o bryd yn wynebu ansicrwydd o ran ddeddfwriaeth tai, oherwydd nes i LlC hysbysu'r Awdurdodau ynghylch yr hyn yr oedd angen iddynt ei newid neu ei ymestyn o dan y Ddeddf Tai Cymru ddiwygiedig a oedd yn yr arfaeth, nid oedd unrhyw ffordd i'r Cyngor gynllunio'n ddigonol i ymdrin â'r problemau cyllid, tai a chyfreithiol a allai godi (er enghraifft, a fyddai'r prawf o angen blaenoriaethol ar gyfer cymorth digartrefedd a fodolai cyn y pandemig yn dod yn ei ôl ai peidio). Er hynny, dylai'r ddeddfwriaeth ddod i rym ym mis Ebrill 2022, a dylai fod gan gynghorau syniad gwell o'r newidiadau a fyddai'n dod yn sgil y ddeddfwriaeth newydd cyn y dyddiad hwnnw.

Gofynnwyd a allai'r Cyngor ddilyn esiampl Cyngor Caerdydd a phrynu'r gwestai a'r llety gwely a brecwast yr oedd pobl ddigartref wedi'u cartrefu ynddynt ar hyn o bryd. Eglurwyd bod Cyngor Caerdydd wedi prynu sawl gwesty a'u trosi'n 'Ganolfannau Asesu'. Fodd bynnag, golygai hyn nad oeddent yn fathau parhaol o lety, ac roedd Cyngor Bro

Morgannwg felly wedi tybio bod y dull hwn yn amhriodol ar hyn o bryd er mwyn ymdrin â darpariaeth tai/digartrefedd tymor hwy.

O ran addasrwydd Gwesty'r Tadross i'w brynu a'i droi'n llety, ac a oedd unrhyw arwydd bod landlordiaid y sector preifat yn tynnu'n ôl o osod tai oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth, dywedwyd y gallai prynu gwesty Tadross neu westai eraill yn y dyfodol. O ran y landlordiaid, esboniwyd er y gallai pwyslais y ddeddfwriaeth newydd ar hawliau tenantiaid beri bod landlordiaid preifat llai yn tynnu'n ôl o'r farchnad oherwydd costau ariannol ychwanegol, roedd llawer o'r landlordiaid yr oedd y Cyngor yn ymdrin â nhw yn gweithredu ar raddfa fwy, a gallent ysgwyddo neu brisio i mewn y costau posibl a oedd yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth. Nid oedd yr un o landlordiaid partner y Cyngor ychwaith wedi codi unrhyw bryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig hyn i hawliau tenantiaid, ac ni fu unrhyw dystiolaeth bod landlordiaid yn 'tynnu'n ôl' hyd yma.

O ran yr hyn yr oedd yn rhaid i denantiaid mewn tai amlfeddiannaeth (HMO) ei dalu, o ran biliau a'r Dreth Gyngor, esboniwyd bod y swm hwnnw'n amrywio rhwng y naill landlord a'r llall, ond bod tenantiaid fel arfer yn talu tâl gwasanaeth bach rhwng £5-15, a Budd-dal Tai fel arfer yn talu am y Dreth Gyngor.

Gofynnwyd a oedd dyddiad cymeradwyo'r Bil Tai newydd yn hysbys eto, ac a ellid rhannu unrhyw wybodaeth am gynnwys y Bil hwn â'r Grŵp ymlaen llaw, er mwyn i'r Grŵp allu gwneud argymhellion a fyddai'n realistig yn erbyn y ddeddfwriaeth newydd honno. Mewn ymateb i hynny, dywedodd yr Uwch Swyddog Cyfreithiol ei fod yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a ganolbwyntiai'n arbennig ar y cytundebau tenantiaeth eu hunain, a geiriad y cytundebau hynny. Ychwanegodd y dylai awdurdodau gael gwell syniad erbyn mis Hydref 2021 ynghylch y newidiadau a ddeuai yn sgil y ddeddfwriaeth newydd. Roedd sefyllfa barhaus y pandemig ynghyd â'r angen i LIC edrych ar gyllidebau wedi achosi oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Wedi dweud hynny, dylai'r ddeddfwriaeth ddod i rym ym mis Ebrill 2022. Byddai'r Swyddog yn rhannu unrhyw ddiweddariadau am y ddeddfwriaeth â'r Grŵp cyn gynted ag y byddent ar gael.

Yn dilyn hynny, mae'r sefyllfa ddeddfwriaethol yn gysylltiedig â darpariaeth tai a digartrefedd wedi cael ei diweddaru ymhellach.

- Rydym wedi sefydlu nad oes dim yn y diwygiadau newydd i Ddeddf Tai Cymru sy'n diwygio angen blaenoriaethol.
- Bydd y Ddeddf yn cynnwys cyfnodau rhybudd 6 mis gorfodol mewn cyfraith (disgwylir i hyn ddigwydd ar 1 Gorffennaf 2022), a bydd olyniaeth bellach yn gallu digwydd ddwywaith, gan ychwanegu gofalwyr at y rhestr o bobl a all fod yn denantiaid olynol mewn eiddo wedi i denant farw, a bydd tenantiaid cyngor yn gallu cymryd lojers.
- Mae'r cyfnod rhybudd o 6 mis wedi bod yn weithredol drwy gydol y pandemig o dan ddeddfwriaeth Covid ond bydd bellach yn cael ei gynnwys mewn cyfraith. Ni ellir rhoi rhybudd ymadael yn ystod 6 mis cyntaf tenantiaeth ac mae'n rhaid i'r rhybudd hwnnw wedyn fod yn 6 mis o hyd. Mae hyn i bob pwrpas yn rhoi 12 mis o sicrwydd i bob deiliad cyn y gellir ei symud.

- Yn achos cyd-denantiaethau, bydd y Ddeddf newydd yn caniatáu i un parti roi 1 mis o rybudd, ond i'r tenant sydd ar ôl gymryd yr hawliau llawn i'r eiddo, ac ymddengys y bydd yn syml yn cymryd drosodd y contract ac yn aros yn yr un lle, er ei fod yn tanfeddiannu'r eiddo.
- Gallai'r rheolau ychwanegol ynghylch olyniaeth olygu y gallai'r Cyngor fod yn cartrefu pobl na fyddent o reidrwydd yn cael eu cartrefu mewn amgylchiadau eraill. Fodd bynnag, byddai'n dal yn bosibl i'r Cyngor eu symud i eiddo llai os ydynt yn tanfeddiannu. Gallai'r gallu, o dan y contractau tenantiaeth newydd, i is-osod neu gymryd lojers alluogi pobl i aros mewn eiddo llai fforddiadwy, a hefyd fod o gymorth i gartrefi pobl sydd angen llety i bobl sengl (y math o lety y mae gennym brinder mawr ohono ar hyn o bryd).
- Mae'r canllawiau ar angen blaenoriaethol yn parhau i fod yn ganllawiau, a chynrychioli arfer da. Fodd bynnag, gan fod bwriad i ostwng i lefel sero y pandemig yng Nghymru, tybir y bydd y gofyniad i gartrefu pob unigolyn digartref ar sail iechyd y cyhoedd yn dod i ben (er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau hynny). Nid oedd hyn erioed wedi'i gynnwys mewn cyfraith, ond wedi'i ganiatáu drwy ganllawiau am resymau'n ymwneud â iechyd y cyhoedd, ac roedd y Cyngor wedi dilyn y canllawiau hynny.
- Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol y bydd Gweinidog Tai Llywodraeth Cymru am i arfer da barhau, ac y dylai Awdurdodau Lleol barhau i ddilyn y canllawiau i gael gwared â'r gofynion yn gysylltiedig ag angen blaenoriaethol, a chartrefu pawb sy'n eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref. Bu trafodaethau ynghylch cynnwys hyn mewn cyfraith, ac mae gan y Gweinidog y pwerau angenrheidiol i ddiwygio'r Ddeddf Tai, ond rhagwelir y cyflawnir hyn drwy Fil Digartrefedd, sydd yn dal heb ei restru ar raglen ddeddfwriaethol y llywodraeth.

**Sefyllfa Gyfredol y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Tai a Digartrefedd**

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth grynodeb o'r sefyllfa ariannol gyfredol o ran staff a gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Tai.

Roedd y cyllidebau a'r cyllid ar gyfer Gwasanaethau Tai yn dod o ddwy ffynhonnell wahanol:

1. Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), o rent tai Cyngor, ac felly wedi'i glustnodi ar gyfer tenantiaid Cyngor; a
2. Tai’r Gronfa Gyffredinol, o refeniw heblaw tai Cyngor, grantiau Llywodraeth Cymru (LlC), y Dreth Gyngor a Budd-daliadau Tai.

Cafodd ffigurau Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer y staff hefyd eu  cynnwys yn yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Grŵp, yn ogystal â chostau cyllideb Gros a Net.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth hefyd wrth yr Aelodau y gallai durio ymhellach i'r ffigurau pe bai'r Grŵp am iddi wneud.

Dangosir y ffigurau uchod (yn ogystal â fersiwn fanylach) yn **Atodiad D (i) ac DD (ii)** yr adroddiad hwn**.**

Cafodd ffigurau Cronfa Galedi LIC eu rhannu â'r Grŵp ar gyfer cyfnodau 2020/21 a 2021/22. Roedd y ffigurau hynny wedi'u dadansoddi yn ôl y swm a ddefnyddiwyd i archebu llety gwestai mewn bloc, eitemau ategol (gan gynnwys trefniadau diogelwch i'r gwestai, i dalu am unrhyw fân ddifrod a achoswyd gan breswylwyr, a'r gost o gludo pobl i'r llety mewn tacsis), ac roedd yr arian a wariwyd gan y Cyngor ar y ddarpariaeth hon wedi'i hawlio'n ôl drwy'r Gronfa.

Ailadroddodd y Swyddog y pwyntiau a wnaed yn flaenorol gan swyddogion ynghylch goblygiadau dirwyn cyllid LIC ar gyfer llety dros dro i ben ym mis Medi 2021, y ffaith y byddai gwestai a busnesau gwely a brecwast am gael eu hystafelloedd yn ôl a'r ansicrwydd ynghylch newidiadau i ganllawiau/deddfwriaeth tai, a'r modd y gallai hynny gael effaith andwyol ar Gyllid Tai a darpariaeth tai/digartrefedd y Cyngor.

O ran y sylwadau a wnaed ynghylch ffigurau archebu bloc yn 2020/21 a 2021/22, £1.266m oedd y gwariant ym mlwyddyn ariannol 2020/21, ac ar gyfer y cyfnod cyntaf o chwe mis yn 2021/22 roedd y gwariant eisoes wedi cyrraedd £1.046m. Eglurwyd bod y galw am lety dros dro wedi cynyddu'n gyson yn ystod 2020/21, a bod nifer fwy o ystafelloedd felly'n cael eu prynu yn 2021/22.

O ran y £10m o gyllid a ddarparwyd gan LIC i 22 o Gynghorau Cymru. Esboniwyd bod y cyllid mewn gwirionedd wedi cynyddu o'r £10m gwreiddiol er mwyn cadw'n gyson â'r galw am ddarpariaeth tai a digartrefedd yr oedd angen i Gynghorau ei fodloni.

O ran y ffigurau uchod ynghylch difrod, sut yr achoswyd y difrod hwn, a sut yr ymdriniwyd â hynny. Dywedwyd bod y difrod hwnnw weithiau'n fwriadol, dros arall yn ddamweiniol. Gallai unrhyw achos o ddifrod troseddol arwain at gerydd, arestiad neu hyd yn oed troi allan o dŷ, ond byddai rheidrwydd o hyd ar y Cyngor i gartrefu'r rhai a oedd yn gyfrifol. Hefyd, roedd cytundebau / amodau tenantiaeth yn cynnwys cyfyngiadau ar achosi difrod bwriadol, ac roedd angen mynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath i'w atal rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Ynghylch y tanwariant sylweddol a gafwyd yn y gyllideb tai yn 2020/21, roedd hyn yn deillio o amgylchiadau eithriadol yn gysylltiedig â'r pandemig, a byddai'r tanwariant yn cael ei gadw o fewn y gyllideb Tai a'i ddefnyddio i recriwtio Swyddog Ailgartrefu Cyflym er mwyn rhoi hwb i Dîm y Sector Rhentu Preifat.

O ran capasiti a'r cynlluniau ar gyfer y Pentref Pobl Hŷn ym Mhenarth, a allai fod o gymorth i liniaru'r pwysau ar dai o fewn y Fro dros y tymor canolig i'r tymor hwy, esboniwyd bod y Pentref yn y cyfnod cysyniadol cynnar. Fodd bynnag, ar ôl ei adeiladu, byddai'n gallu helpu i ailgartrefu pobl mewn llety mwy priodol, gan ryddhau tai i rai ar y rhestr aros. O ran capasiti, byddai 72 o unedau'n cael eu hadeiladu yn y cynllun gofal ychwanegol (Cymdeithas Tai Wales & West), ac roedd 30 o unedau hunangynhaliol ar wahân i bobl hŷn yn cael eu datblygu gan y Cyngor yn y lleoliad.

Fel diweddariad pellach i gyllid grant Caledi LIC, mae LIC wedi cytuno'n ddiweddarach i dalu'r holl gostau llety gwesty ar gyfer 2021/22, ac wedi cadarnhau y bydd yn talu costau 6 mis cyntaf 2022/23, ac yn ystyried talu costau 6 mis olaf 2022/23 os gellir rhoi cyfiawnhad cadarn dros hynny.

**Diweddariadau ynghylch Rhoi Cymorth a Chefnogaeth i Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Grwpiau Eraill i'w helpu i gael Llety Parhaol**

**(i) Gwasanaethau Cymdeithasol**

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Lleol y newyddion diweddaraf i'r Grŵp. Eglurodd nad oedd Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion yn darparu llety parhaol, onid oedd hynny'n gysylltiedig ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Yn lle hynny, roeddent yn helpu unigolion a theuluoedd i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain gyhyd ag y bo modd. Roedd hyn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Codau Ymarfer, a oedd yn cynnal yr egwyddor o wella llesiant pobl ag anghenion gofal a chymorth yn ogystal â gofalwyr eu hunain. Gellid ystyried bod gan y Ddeddf ddwy brif swyddogaeth:

1. Cefnogi a gwella llesiant dinasyddion lleol, hy rhoi gwybodaeth i bobl ynghylch sut i reoli eu hiechyd neu eu hamgylchiadau cymdeithasol, a chynnig mynediad at wasanaethau cymorth lefel isel, fel y rhai a ddarperir gan y Trydydd Sector neu Homes4U;
2. Rhoi gofal a chymorth i unigolion, na fyddent fel arall yn gallu sicrhau eu canlyniadau llesiant eu hunain, yn dilyn asesiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyswllt rhwng pobl ag anghenion gofal a chymorth a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn digwydd drwy'r Timau Derbyn ac Asesu, er bod pobl hefyd yn gallu cael mynediad at Wasanaethau Oedolion drwy'r Tîm Integredig (ysbyty) a'r timau iechyd meddwl integredig. O bryd i'w gilydd byddai pobl ag anghenion gofal a chymorth lefel isel a oedd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, yn cysylltu â'r Tîm Derbyn ac Asesu. Gallai'r tîm gynnig cymorth drwy atgyfeirio i'r canlynol:

- Gwasanaethau llesiant neu iechyd meddwl lefel isel, ee drwy MIND yn y Fro.
- 'Brocer' y Trydydd Sector, a Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog yng nghanolfan alwadau'r Cyngor (C1V) a oedd yn cysylltu pobl â chymorth gan y Trydydd Sector, gan gynnwys cymorth tai a digartrefedd.
- Gallai gweithwyr cymdeithasol hefyd helpu i gysylltu pobl ag ystod o wasanaethau cymorth er mwyn helpu pobl i fod yn fwy gwydn ac annibynnol, a allai yn y pen draw helpu gyda phroblemau ac anghenion yn gysylltiedig â llety ac osgoi digartrefedd

Gallai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnig llety uniongyrchol mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, ee unigolyn ag anghenion gofal sylweddol a'r angen i rai unigolion gael eu lleoli mewn llety preswyl neu gartrefi nyrsio. Cafodd oddeutu 10 o leoliadau eu comisiynu yr wythnos mewn cartrefi preswyl neu nyrsio ym Mro Morgannwg (pobl oedrannus yn ogystal ag eraill ag anghenion sylweddol neu gymhleth.

O ran y broses o leoli unigolyn sy'n agored i niwed, neu ag anghenion cymhleth, o fewn y gymuned, ee drwy ei gartrefu mewn bloc o fflatiau, esboniwyd y byddai'r Tîm Tai yn arwain unrhyw benderfyniad ynghylch hynny, ond y byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol

wedyn yn cynnig cymorth i unrhyw unigolyn ag anghenion gofal ag anghenion eraill a oedd yn preswylio mewn bloc o fflatiau neu gartref arall yn y gymuned. Ychwanegwyd nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dyrannu tai mewn achosion o'r fath, ac mai'r Tîm Tai yn unig a fyddai'n gwneud hynny, ac y byddai hynny'n digwydd yn amodol ar asesiad trylwyr o anghenion yr unigolyn.

Byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu fel 'eiriolwyr' pe bai eu cleientiaid yn profi unrhyw broblemau'n gysylltiedig â thai, a gweithwyr cymdeithasol yn siarad â darparwyr tai neu'n cyfeirio'r problemau hynny i sylw eiriolwr annibynnol pe bai unrhyw amheuaeth o wrthdaro buddiannau.

O ran nifer y bobl a oedd yn symud o dai cymdeithasol i gartrefi gofal, ac a oedd pobl yn symud i fathau penodol o dai a oedd yn bodloni eu hanghenion (hy, llety i bobl dros 55 oed), dros y pum mlynedd diwethaf bu dirywiad graddol yn nifer y bobl a oedd yn symud i gartrefi gofal, gan ei bod hi'n well gan bobl aros yn eu cartrefi eu hunain gyhyd ag y bo modd - tuedd a waethygwyd gan y pandemig. Fodd bynnag, gallai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gefnogi pobl a ddymunai aros yn eu cartrefi, ee drwy addasu eu llety. Roedd hi'n well gan lawer o'r preswylwyr hynny aros yn eu cartrefi presennol, ond byddent yn ystyried symud i lety mwy addas pe bai angen, pe na bai'r addasiadau'n gweithio.

### (ii) Y Gwasanaethau Tai

Dywedodd y Cydgysylltydd Cefnogi Pobl wrth y Grŵp fod y Tîm Cefnogi Pobl yn derbyn £4.7 miliwn y flwyddyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cyfrannu at 4,000 o unedau cymorth ym Mro Morgannwg. Nod LlC drwy hyn oedd:

- Atal digartrefedd
- Helpu i gadw cartref addas a sefydlog i breswylwyr drwy feithrin eu gallu i wneud hynny drostynt eu hunain.
- Cynnig mynediad at dai addas a gwasanaethau cysylltiedig.
- Helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch cymorth tai, a dealltwriaeth o hynny.

Cynigiodd y Tîm Cefnogi Pobl hefyd y mathau canlynol o gymorth, a helpu i ymdrin â nifer o wahanol broblemau llety.

- Cefnogaeth galw heibio. Byddai hyn fel arfer yn golygu cyswllt wyneb yn wyneb â Swyddog Tai neu weithiwr cymorth sy'n ymdrin â phroblemau tai a materion cysylltiedig, fel problemau ariannol. Gallai cefnogaeth o'r fath olygu ymyraethau byr ac atebion cyflym. Roedd y Siop Un Stop ar Heol Holton wedi bod ynn ganolog i hyn. Fodd bynnag, roedd y pandemig wedi cyfyngu ar fynediad i'r adeilad, ond darparwyd opsiynau eraill, fel cyswllt a chefnogaeth dros y ffôn.
- Gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn ac i fyw'n annibynnol, ee Golau Caredig; unwaith eto, roedd y pandemig wedi effeithio ar y cyswllt, gyda'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth a'r gwasanaethau'n cael eu darparu dros y ffôn. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai'r gefnogaeth honno'n cael ei darparu drwy gyswllt wyneb

yn wyneb yng nghartrefi pobl unwaith eto. Roedd y gefnogaeth a gynigiwyd yn cynnwys sefydlu cyfleustodau, gwneud cais am fathodyn glas, budd-daliadau ac ati.

- ‘Cymorth lle bo'r angen’; roedd hyn yn cynnwys mathau mwy hirdymor o gymorth, fel helpu tenantiaid gydag ôl-ddyledion rhent ac atal pobl rhag colli eu cartref. Mewn rhai amgylchiadau, gallai gweithwyr cymorth helpu tenantiaid i negodi cynllun talu â landlordiaid, i annog a rhoi'r sgiliau i ddefnyddwyr gwasanaeth gyllidebu'n fwy effeithiol, gan atal dyledion ac ôl-ddyledion rhag amharu ar allu defnyddiwr gwasanaeth i gael llety yn y dyfodol.
- Rhoi cymorth lloches (hy, i ddefnyddwyr Llochesi Menywod), a oedd yn cynnwys helpu i ganfod llety a hanfodion eraill.
- Canfod llety â chymorth; fodd bynnag, dylid nodi bod llety o'r fath yn brin ar hyn o bryd.
- Cefnogaeth (drwy Pobl) yn gysylltiedig â hosteli a mathau eraill o lety i gyn-droseddwyr yn ogystal â datblygu eu sgiliau bywyd. Gallai mesurau fel hyn helpu i atal cyn-droseddwyr rhag mynd yn ddigartref a'u hatal rhag aildroseddu yn y dyfodol.
- Cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth â phroblemau iechyd meddwl er mwyn iddynt symud i ffwrdd o leoliad clinigol a byw yn eu llety eu hunain yn y gymuned, yn ogystal â helpu rhai sy'n camddefnyddio sylweddau mewn llety â chymorth (ee, drwy Elusen Wallich).

O ran niferoedd, roedd 80 o bobl yn aros am gymorth fel y bo'r angen oherwydd y pandemig, gyda 60 o bobl yn aros am lety dros dro â chymorth. Eglurodd y Cydgysylltydd Cefnogi Pobl fod gan y Cyngor lawer llai o'r math hwn o lety o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, yn ogystal â phrinder cyffredinol o gartrefi un ystafell wely.

Cyfeiriodd y Cydgysylltydd Cefnogi Pobl hefyd at lety gwasgaredig a oedd wedi'i ddarparu, fel y lloches 'niwtral o ran rhywedd' (ar y cyd ag Atal y Fro a Chymdeithas Tai Newydd) a ddefnyddiai unedau o fflatiau wedi'u cefnogi gan y Tîm IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch). Roedd hyn yn darparu ar gyfer goroeswyr gwrywaidd, traws a benywaidd (a chanddynt blant hŷn).

Eglurodd y Cydgysylltydd Cefnogi Pobl hefyd fod y Cyngor yn mynd drwy broses dendro, gyda'r bwriad i gynyddu rhai gwasanaethau yn sgil cyllid ychwanegol o fis Medi 2021, a fyddai o gymorth i leihau'r rhestrau aros. Gallai'r unigolion hyn hefyd gael eu hatgyfeirio i wasanaethau galw heibio a chefnogaeth yn y cyfamser. Gallai'r cyllid ychwanegol hwn hefyd ariannu gweithwyr cymorth mewn meysydd fel cynllun tai'r sector preifat, i gefnogi pobl a gaiff eu cartrefu ar ôl bod yn ddigartref.

O ran pa mor hir yr oedd pobl ar y rhestr aros cymorth fel y bo'r angen, esboniwyd bod y Cyngor yn mynd drwy broses dendro, ac y byddai cynnydd i rai gwasanaethau yn sgil cyllid ychwanegol o fis Medi 2021. Byddai hyn o gymorth i leihau'r rhestrau aros, a gellid hefyd atgyfeirio'r unigolion i wasanaethau galw heibio a chefnogaeth yn y cyfamser.

Gallai'r cyllid ychwanegol hwn hefyd ariannu gweithwyr cymorth mewn meysydd fel cynllun tai'r sector preifat, i gefnogi pobl a gaiff eu cartrefu ar ôl bod yn ddigartref

**Trefniadau Amlasiantaethol i Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)**

Bu’r Rheolwr Atebion Tai hefyd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am broses MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol i Amddiffyn y Cyhoedd) a thai, gan egluro bod dyletswydd ar Gynghorau i gartrefu grwpiau amrywiol nad oeddent gynt yn gymwys i gael llety yn sgil y ddeddfwriaeth frys a basiwyd gan LIC oherwydd y pandemig.

Roedd hyn wedi golygu bod niferoedd sylweddol o bobl sengl ac eraill yn cael eu cartrefu mewn prosiectau rhannu llety, llety gwely a brecwast ac ati, a oedd wedi achosi cryn her i'r Cyngor gan fod angen gweithredu'r ddeddfwriaeth hon yn gyflym. Roedd mesurau tebyg yn yr Alban wedi cael eu cyflwyno'n fwy graddol (a'r rheiny wedi'u cyflwyno sawl blwyddyn cyn y pandemig).

Roedd y Tîm Tai yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac roedd Cynghorydd Iechyd Meddwl wedi'i 'ymwreiddio' yn y tîm.  Roedd Therapydd Galwedigaethol hefyd bellach wedi'i ymwreiddio yn y Tîm Atebion Tai. Roedd y Therapydd yn rhoi cymorth i'r tenantiaid hynny â phroblemau symud, gan sicrhau bod y cartrefi a oedd yn cael eu cynnig drwy Homes4U yn briodol i fodloni eu hanghenion.

Roedd MAPPA yn ymdrin â thri chategori o droseddwyr:

- Categori Un: Pob Troseddwr Rhyw Cofrestredig.
- Categori Dau: Troseddwyr treisgar neu droseddwyr rhyw eraill nad oeddent yn ddarostyngedig ofynion hysbysu.
- Categori Tri: Troseddwyr peryglus eraill.
- Byddai pedwerydd categori, sef troseddwyr fu'n ymwneud â therfysgaeth, yn cael ei gynnwys yn y dyfodol.

Roedd lefelau MAPPA yn cynnwys:

- Lefel 1, (rheolaeth asiantaeth arferol), lle bo'r holl asesiadau risg wedi'u cynnal, swyddogion wedi'u dynodi i fonitro o ddydd i ddydd a chynllun gweithredu cadarn.  Roedd unrhyw 'fylchau' yn cael eu nodi yn y Cynllun Rheoli Risg;
- Lefel 2, (mae angen ymagwedd aml-asiantaeth weithredol (cyfarfodydd MAPPA)), lle bo'r partneriaid perthnasol yn cyfarfod i ddatrys problemau a llenwi unrhyw 'fylchau' wrth reoli troseddwr;
- Lefel 3 (ymagwedd weithredol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr), lle bo uwch arweinwyr fel y Rheolwr Gweithredol neu'r Pennaeth Gwasanaeth yn bresennol mewn cyfarfodydd aml-asiantaeth ac yn trafod risgiau.

Roedd y cyfarfodydd aml-asiantaeth hynny'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Prawf, o Uned Diogelu'r Cyhoedd, yr Heddlu, y Cyngor (Tai, ac ati), Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr, Timau Iechyd Meddwl, ac asiantaethau cymorth eraill.

Roedd sawl 'eiddo cymeradwy' y gellid cartrefu cyn-droseddwyr ynddynt dros dro mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru.

Roedd y broses hon yn dilyn y pedair colofn - 1) goruchwyliaeth, 2) rheolaeth, 3) ymdriniaeth, 4) diogelwch dioddefwyr (ee 'ardaloedd dan waharddiad').

Yn flaenorol, nid oedd unrhyw rwymedigaeth statudol i ddarparu llety dros dro i gyn-droseddwyr oherwydd eu statws MAPPA yn unig. Fodd bynnag, roedd y pandemig wedi newid hyn wrth i LlC gael gwared â'r Prawf Angen Blaenoriaethol a gymhwyswyd gynt, gan olygu bod pob achos o ddigartrefedd bellach yn flaenoriaeth.

Roedd anghenion tai cyn-droseddwyr yn cael eu hasesu'n drylwyr gan yr Heddlu ac asiantaethau eraill cyn gweithredu, ac yn cael eu rheoli'n llym, gan gyfyngu ar eu gallu i aildroseddu.

Yn y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC), roedd y pwyslais ar sicrhau y gallai dioddefwyr cyn-droseddwyr fyw'n ddiogel yn y gymuned, a mynd i'r afael â'r problemau'n gysylltiedig ag ymddygiad blaenorol y cyn-droseddwr.  Pe bai angen, gellid gweithredu mesurau caledu targed yng nghartrefi dioddefwyr / goroeswyr cyn-droseddwyr, a'u hadleoli i lety newydd os oedd angen.

Ynghyd â'r uchod, byddai Dull Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) yn sicrhau ymateb traws-asiantaethol i'r bygythiad o droseddu ac aildroseddu mewn cymunedau lleol. Byddai'r troseddwyr mwyaf cyson a phroblemus yn cael eu nodi a'u rheoli drwy waith ar y cyd gan asiantaethau partner.

Eglurodd y Rheolwr Atebion Tai nad oedd un ateb yn gweddu i bawb o ran tai a chefnogi cyn-droseddwyr, gan fod gan bob unigolyn ei anghenion ei hunain, a chan fod lefelau eu hunanreolaeth dros eu hanghenion tai yn amrywio.  Mewn rhai achosion, byddai angen i Awdurdodau ystyried pecyn cymorth anghenion cymhleth 24 awr ar gyfer cyn-droseddwyr, neu symud i lety anghenion cyffredinol, mewn tai preifat a chymdeithasol.

Roedd yn hanfodol cefnogi cyn-droseddwyr gyda phroblemau amrywiol a oedd wrth wraidd eu hymddygiad (fel camddefnydd o sylweddau) er mwyn ceisio 'datod' y rhain a cheisio'u hatal rhag aildroseddu.

Yn olaf, ychwanegodd yr Arweinydd Atebion Tai a'r Tîm Cefnogi Pobl y gellid darparu cymorth tai i gyn-droseddwyr, ond roedd asiantaethau priodol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i'w cefnogi, ac roedd angen eu cyfeirio i'r asiantaethau hynny i gael unrhyw gyngor neu gymorth arall.

O ran yr ymholiad ynghylch pa mor hir y bu'r cyn-droseddwyr yn cadw eu llety, eglurwyd y gallai cyn-droseddwyr ym mhroses MAPPA fod ar drwydded a dychwelyd i'r carchar yn y tymor hir, neu ddychwelyd yn y tymor byrrach os nad oeddent o dan IOM.  Y nod fyddai cadw eu llety tra'r oeddent yn y carchar, drwy fudd-dal tai a mathau eraill o gymorth.

Yn dilyn yr ymholiad ynghylch faint o droseddwyr oedd yn y categorïau MAPPA, esboniwyd mai ond nifer fach o gyn-droseddwyr a fyddai wedi'u cynnwys, gan nad oedd angen cymorth i gael llety ar bob cyn-droseddwr, a bod yr unigolion mwyaf heriol yn cael eu cadw o fewn stoc tai y Cyngor. O ran IOM, gellid rheoli hyd at 30 o bobl o dan y rhaglen honno, a hynny'n bennaf mewn llety dros dro oherwydd eu blaenoriaethau neu eu hanghenion byrdymor.

O ran llety anghenion cymhleth 24 awr, roedd hyn yn cynnwys llety dros dro, gydag uchafswm o 10 o ddefnyddwyr gwasanaeth fesul tŷ (yn dibynnu ar yr hyn y gallai'r landlord ei ddarparu). I'r rhai a oedd yn ystyried symud ymlaen i lety mwy parhaol, byddent yn mynd i gartrefi ar gyfer anghenion mwy cyffredinol. Yn y pen draw, roedd adnoddau'n cyfyngu ar y llety a'r cymorth hwnnw.

Roedd yn hanfodol cefnogi cyn-droseddwyr gyda phroblemau amrywiol a oedd wrth wraidd eu hymddygiad (fel camddefnydd o sylweddau) er mwyn ceisio 'datod' y rhain a cheisio'u hatal rhag aildroseddu.

Yn olaf, ychwanegodd yr Arweinydd Atebion Tai a'r Tîm Cefnogi Pobl y gellid darparu cymorth tai i gyn-droseddwyr, ond roedd asiantaethau priodol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor i'w cefnogi, ac roedd angen eu cyfeirio i'r asiantaethau hynny i gael unrhyw gyngor neu gymorth arall.

### (iii) Pobl (darparydd Tai a Chymorth Cymunedol ar ran Cyngor Bro Morgannwg)

Rhoddodd Rheolwr Ardal Pobl y newyddion diweddaraf i'r Grŵp am y cymorth tai, a'r mathau eraill o gymorth a ddarperir gan Pobl. Dywedodd mai rôl Pobl mewn cydweithrediad â'r Cyngor oedd darparu tai a mathau eraill o gymorth cysylltiedig ar ddwyster amrywiol i bobl amrywiol (fel pobl ddigartref ar y stryd), a'r cyfan yn anelu i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau sylfaenol neu frys (fel camddefnydd o sylweddau), a meithrin gallu a sgiliau'r unigolyn i reoli a chadw ei lety ac atal digartrefedd yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Roedd y lefelau cymorth yn amrywio rhwng cymorth dwys, aml-asiantaeth a lefelau cymorth is, a helpu pobl i gael llety dros dro hyd at lety â chymorth neu gynlluniau byw'n annibynnol a llochesi.

Roedd yn bwysig deall y rhesymau pam bod pobl yn gofyn am gymorth gan asiantaethau fel Pobl, a allai amrywio rhwng problemau'n gysylltiedig â thrawma, ynysigrwydd, newidiadau annisgwyl i ffordd o fyw (yn sgil y pandemig neu amgylchiadau eraill eithafol) neu ddiffyg cymheiriaid neu deulu i'w helpu i feithrin y sgiliau a'r hyder a fyddai o gymorth i gadw cartref.

Er mwyn i'r gefnogaeth fod yn effeithiol, roedd Pobl yn rhoi cymorth a chyngor ar yr union adeg gywir, a thrwy'r dull yr oedd ar eu cwsmeriaid ei angen, gyda phwyslais ar hyblygrwydd, ar atal a rhoi'r unigolyn yn y canol (ee, gwrando ar gwsmeriaid a staff a chymorth 1 wrth 1, anffurfiol neu waith grŵp), canolbwyntio ar agweddau cadarnhaol i

feithrin gwytnwch mewn cleientiaid 'goddefgarwch elastig' (hy, derbyn y bydd pobl yn gwneud camgymeriadau ac yn cymryd cam yn ôl), a deall y rhesymau wrth wraidd anghenion ac ymddygiad y cleient, gan nad oedd pawb yn barod i fod yn denant o'r cychwyn cyntaf.

Rhoddwyd cymorth hefyd i landlordiaid, yn ogystal â'r tenantiaid, o fewn y sector rhentu preifat i'w helpu gyda'r heriau o'u blaen a sicrhau drwy hynny y gallent hwythau hefyd barhau i gynnig cymorth a chefnogaeth drwy barhau i ddarparu tai i denantiaid.

Roedd Pobl hefyd yn cynnig cymorth ‘gwerth ychwanegol’, ee gweithgareddau cerdded, digwyddiadau Gweithredu yn y Gymuned gyda darparwyr eraill, a chan gynnwys y gymuned, hyd at hyfforddiant Agored Cymru ar gyllidebu a sut i fod yn denant, gan greu cysylltiadau â banciau bwyd a chyhoeddi cylchgrawn misol yn ystod y pandemig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid.

Cyfeiriodd y Rheolwr Ardal at sawl enghraifft o adborth gan gwsmeriaid, a ddangosai amrywiaeth a helaethrwydd y gefnogaeth a roddir drwy Pobl, ee y cymorth dwys i bobl sy'n symud allan o lety dros dro, a'r cysylltiadau a fyddai'n cael eu creu â'r gymuned neu'r rhwydweithiau cymorth a fodolai eisoes er mwyn helpu i gyflawni hyn.

O ran adborth, roedd Pobl yn edrych ar ymatebion cadarnhaol a negyddol, er mwyn ystyried yr hyn fu'n llwyddiant a'r hyn a oedd angen ei wella.

Bu Pobl yn ymwneud ag amryw o brosiectau, gan gynnwys:

- Roedd Prosiect Troseddwyr y Barri, yn darparu llety i oedolion a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Yn aml byddai ganddynt anghenion cymhleth, a bu'r prosiect yn llwyddiannus yn sgil y perthnasoedd a gafodd eu meithrin â landlordiaid a throseddwyr wrth eu cartrefu.
- Siop Un Stop.
- Cynllun y Sector Rhentu Preifat, a oedd yn helpu pobl i gadw eu llety o fewn y sector hwn.

O ran cyfradd lwyddo prosiectau o'r fath wrth geisio cael llety i bobl:

- Roedd 15 uned wedi cael eu comisiynu i oedolion a oedd wedi troseddu.
- Ar gyfer y Siop Un Stop roedd dros 300 o bobl wedi derbyn cymorth dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys rhai ag anghenion tai/digartrefedd;
- Roedd Cynllun y Sector Rhentu Preifat wedi cefnogi 260 o bobl ac wedi bod yn hollbwysig o ran cartrefu pobl na fyddai fel arall wedi gallu cael cartref o fewn sector y Cyngor, oherwydd prinder; ac
- Roedd 270-280 o bobl wedi cael cefnogaeth drwy gymorth fel y bo'r angen;
- Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cynnwys y niferoedd ar y rhestr aros bresennol am dai.

O ran y gwahanol lefelau o gymorth a oedd yn cael ei ddarparu drwy Pobl, esboniwyd bod y cymorth wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer yr unigolyn dan sylw, o sesiwn galw heibio untro hyd at ystyried cymorth tymor hwy neu gyfeirio i dderbyn cymorth ar gyfer anghenion llety ac anghenion cysylltiedig.

**Trosolwg o'r Opsiynau Posibl i Ehangu Llety Dros Dro a Pharhaol yn y Tymor Byr**

Rhoddodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus y newyddion diweddaraf i'r Grŵp am y materion sylfaenol isod a oedd yn gysylltiedig ag ehangu llety dros dro, neu lety mwy parhaol.

Dyma'r ddwy brif elfen a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw benderfyniad i ehangu:

1. Cam 2 Canllawiau Cynllunio ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Cysylltiedig â Thai gan Lywodraeth Cymru (LIC). Teimlai Llywodraeth Cymru fod cyfle, yn sgil y mesurau a weithredwyd yn ystod y pandemig - i gadw'r dulliau o leihau neu gael gwaed ag achosion o gysgu ar y stryd, ac atal pobl rhag dychwelyd i fod yn ddigartref. Hefyd, adolygu'r mathau presennol o lety dros dro a rhoi'r gorau i ddefnyddio llety anaddas, yn ogystal â datblygu mathau newydd o lety dros dro. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, roedd angen y pedair elfen ganlynol: cymorth (ee, parhau i gefnogi'r bobl hynny mewn darpariaeth frys neu sydd newydd ddod yn ddigartref), cynllun (ee, symud i ffwrdd o ddefnyddio gwestai a llety gwely a brecwast tuag at fathau mwy cynaliadwy o lety ee, drwy ailbwrpasu, ehangu'r stoc rhentu preifat, llety modiwlaidd ac ailddynodi eiddo anghenion cyffredinol presennol), adeiladu (ee, adeiladu llety i wella ansawdd y ddarpariaeth frys a chynyddu argaeledd tai parhaol) a thrawsnewid (ee, symud i ffwrdd oddi wrth lochesi nos a 'gofod llawr' a thuag at fathau mwy cynaliadwy ac effeithiol o lety brys); ac
2. Opsiynau posibl a ddefnyddir gan Gynghorau eraill. Eglurodd y Swyddog fod Cynghorau cyfagos yn cynnal nifer o brosiectau a oedd yn ymwneud ag ehangu llety dros dro neu lety mwy parhaol, ee ailddynodi blociau presennol o fflatiau neu fathau eraill o adeiladau (neu yn achos Caerdydd ac Abertawe, ailbwrpasu blociau swyddfeydd), er mwyn darparu llety dros dro a llety ar ffurf adeiladau newydd pwrpasol gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs). Roedd Cyngor Abertawe hefyd yn enghraifft o Awdurdod Lleol a oedd yn ystyried ehangu ei gynllun prydlesu'r sector preifat er mwyn cynyddu capasiti y mathau hyn o gartrefi.

**Diweddariad(au) a Tystiolaeth gan Dystion 'Arbenigol' oddi mewn ac oddi allan i'r Cyngor ynghylch Darpariaeth/Cymorth Tai a Digartrefedd**

**(i) Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro**

Roedd y Grŵp yn croesawu Uwch Arweinydd Tîm ac Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Rhentu Preifat (PRS) yng Nghyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro.

Eglurwyd mai Llywodraeth Cymru (LIC) oedd yn cyllido'r PRS er mwyn helpu tenantiaid o fewn y sector hwn a oedd yn ei chael hi'n anodd talu'r rhent neu a chanddynt ôl-ddyledion rhent. Drwy hynny roeddent wedi helpu i atal pobl rhag cael eu troi allan a throi'n ddigartref o fewn y sector tai rhent preifat yn ystod y pandemig. Roedd natur y gwasanaeth hwn wedi newid dros amser.

Fodd bynnag, roedd gweithwyr cymorth dyledion hefyd yn gweithio yn swyddfa'r Fro y CABCF a oedd hefyd y helpu tenantiaid y Gymdeithas Tai a'r Cyngor, yn ogystal â thenantiaid preifat.

Roedd gan y tîm PRS 4 gweithiwr achos dyledion a 3 chynghorydd cyffredinol, a oedd yn helpu tenantiaid preifat gydag amrywiaeth o broblemau tymor byr a thymor hwy yn gysylltiedig â thai, ee, ymdrin â dyledion a rhyddhau o ddyledion, methdaliad, tenantiaid oedd yn ei chael hi'n anodd talu biliau cyfleustodau ac/neu'r Dreth Gyngor a diweithdra o ganlyniad i'r pandemig. Gallai'r tîm ddarparu cymorth amrywiol yn gysylltiedig â'r problemau hynny, ee helpu tenantiaid i roi'r flaenoriaeth i ad-dalu dyledion, ystyried cyllid a budd-daliadau ychwanegol posibl y gallent eu derbyn a allai helpu eu sefyllfa ariannol, yn ogystal â lleihau cyfanswm eu dyledion drwy eu cynghori ar sut i newid darparwyr cyfleustodau a gwasanaethau eraill a chyllidebu'n fwy effeithiol, gan osgoi cael eu troi allan o'u cartref o dan hysbysiadau Adran 8 a 21. Oherwydd y pandemig, roedd y gwasanaeth wedi darparu cymorth o bell, hy, bu'n cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth drwy e-bost a thros y ffôn, ac roedd hynny mewn gwirionedd wedi cynyddu gallu'r gwasanaeth i ymateb. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi bod yn cydweithio â LIC er mwyn annog tenantiaid i ymgeisio am y Grant Caledi i Denantiaid a oedd wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar.

Problem gyffredin a godwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth oedd cael gwared â grant y £20 ychwanegol ar gyfer Credyd Cynhwysol, a allai achosi i denantiaid ac eraill fynd i drafferthion ariannol. Problem arall a godwyd yn fynych oedd yr anawsterau a wynebai pobl ifanc dan 25 wrth dalu'r rhent a biliau tai, a mynediad at gartrefi un ystafell wely, a oedd yn brin ac yn aml yn ddrud iawn i'w rhentu. Yn olaf, roedd mynediad i'r rhyngrwyd yn gostus ac yn anodd i rai grwpiau, ond eto'n hanfodol, hy er mwyn iddynt allu cwblhau eu dyddiadur Credyd Cynhwysol.

O 23 Awst byddai Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro yn ailgyflwyno apwyntiadau wyneb yn wyneb i'r cleientiaid hynny na allent ddefnyddio'r ffôn na'r rhyngrwyd (hy, y cleientiaid hynny a oedd yn ddigartref). Yn achos y cleientiaid hynny a allai ffonio'r gwasanaeth, byddai gweithwyr cymorth yn brysbennu'r achosion i weld a fyddai'n fwy priodol rhoi cymorth wyneb yn wyneb iddynt neu gymorth o bell.

Roedd y PRS wedi helpu pobl yn y Fro (hy, i'w hatal rhag cael eu troi allan neu fod yn ddigartref), a darparwyd y ffigurau canlynol ar ôl y cyfarfod:

Cyfnod 01/01/2019 – 29/02/2020 – ymdriniwyd â 426 o faterion

Cyfnod 01/03/2020 – 23/09/2021 – ymdriniwyd â 936 o faterion

Roedd amrywiaeth o wahanol resymau pam y gallai'r cleient fod wedi wynebu bygythiad o ddigartrefedd, ee tor-perthynas, gweithred i feddiannu ar ran yr Awdurdod Lleol/Cymdeithas Dai/landlord preifat, trais domestig ac ati, ac mae'n ddigon posibl nad oedd y rhesymau hynny'n deillio o'r pandemig. Mae'r ffigurau uchod yn adlewyrchu cleientiaid sy'n byw ym Mro Morgannwg a dderbyniodd unrhyw un o wasanaethau Cyngor ar Bopeth.

Roedd disgwyl i'r galw am wasanaethau a chyngor gan Gyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro gynyddu ymhlith cleientiaid yn yr hydref/gaeaf yn sgil cael gwared â'r ataliad dros dro ar droi pobl allan a phroblemau'n gysylltiedig â thai.

Yn ychwanegol at hynny, o ran achosion a niferoedd posibl yr achosion hynny y gellid eu gweld yn y dyfodol agos: Ymatebodd yr Ymgynghorydd Digartrefedd, Shelter Cymru, drwy ddweud ei bod hi'n rhy fuan i ddweud beth fyddai'r niferoedd, yn sgil yr ôl-groniad cyfredol, y broses a'r oedi yn gysylltiedig ag achosion o droi allan ers cael gwared â'r ataliad dros dro, ac na fyddai'r rhan fwyaf o gleientiaid yn cysylltu â Shelter Cymru nes derbyn papurau llys - a allai gymryd 6-8 mis.  Fodd bynnag, roedd swm y gwaith yr oedd Shelter Cymru yn ei wneud yn gysylltiedig â throi allan bellach 25% yn uwch na 6 mis yn ôl. Ychwanegodd y Swyddog Caffael Rhent Preifat y gallai gymryd 16-18 mis i achos o droi allan fynd drwy'r llys. Wedi i'r ôl-groniad a gwaith prosesu achosion o droi allan gynyddu, dywedodd Uwch Arweinydd Tîm Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro y byddai'r CABCF yn gweld cynnydd aruthrol yn nifer y bobl a oedd yn cysylltu i ofyn am gymorth yn gysylltiedig â phroblemau tai a digartrefedd.

Cyfeiriwyd at gwmpas a natur gyfyngedig y Grant Caledi i Denantiaid, a'r ffaith nad oedd rhyw lawer o bobl yn manteisio arno. Oherwydd ei feini prawf, nid oedd ond yn berthnasol i garfan fechan o hawlwyr posibl, felly roedd hi'n her i denantiaid ymgeisio am y grant, ac yn anodd codi ymwybyddiaeth yn ei gylch yn sgil hynny.  O blith y nifer fach a ymgeisiai am y Grant, ychydig iawn o'r tenantiaid hynny y tybiwyd eu bod yn gymwys i'w hawlio, hy roedd angen i'r ymgeiswyr a oedd mewn swydd brofi eu bod yn wynebu caledi ariannol). Byddai'r Arweinydd Tîm Atebion Tai a Chefnogi Pobl ac Uwch Arweinydd Tîm CABCF yn ystyried sut y gallent gydweithio i godi proffil y Grant ar raddfa fwy lleol, ac yn ystyried a fyddai modd i rywun o PRS fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd nesaf y Fforwm Landlordiaid i godi ymwybyddiaeth yn y fan honno.  O ran newid y paramedrau a'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y Grant Caledi i Denantiaid, nid oedd LIC yn ystyried newid y meini prawf, ac ond yn ceisio codi proffil y Grant yn lle hynny.

### (ii) Shelter Cymru

Yna croesawodd y Grŵp yr Ymgynghorydd Digartrefedd o Shelter Cymru a esboniodd ei rôl i'r Grŵp a'r gwaith yr oedd Shelter Cymru yn ei wneud yn gysylltiedig â digartrefedd.  Ei rôl yn Shelter Cymru oedd helpu i atal digartrefedd ac, yn rhan o hynny, ymateb i ymholiadau technegol ynghylch deddfwriaeth a materion tai yr oedd y swyddogion perthnasol o fewn Shelter yn eu codi, a chwrdd â gweithwyr achos o bob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Deuai 80% o'r gwaith yn gysylltiedig â phroblemau tai a digartrefedd drwy Linell Gymorth Shelter Cymru, gyda phroblemau mwy cymhleth yn cael eu cyfeirio i sylw gweithwyr achos o unrhyw un o'r Awdurdodau Lleol.  Roedd Cynghorau Cymru'n wynebu her aruthrol o ran ymdrin â'r myrdd o broblemau hyn, yn enwedig wrth i LIC hepgor angen blaenoriaethol o'r meini prawf tai.  Roedd hyn wedi'i wneud o fewn cyfnod byr o amser, ond mewn ardaloedd eraill, fel yn yr Alban, roedd y newidiadau hynny wedi cael eu gweithredu dros gyfnod o saith mlynedd.

Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi dilyn canllawiau LlC yn fanwl, ond roedd Cynghorau eraill Cymru wedi bod yn llai parod i wneud hynny ac wedi'i chael hi'n anodd bodloni'r cynnydd sydyn mewn anghenion llety.

Roedd nifer y bobl sengl / ymgeiswyr a leolwyd mewn llety dros dro wedi mwy na dyblu yng Nghyngor Bro Morgannwg, ee drwy logi ystafelloedd yn yr Holiday Inn Express ger Maes Awyr Caerdydd. Oherwydd mesurau a weithredwyd gan y Cyngor, bu'r adborth ynghylch gwaith Tîm Tai y Fro, a'r modd yr ymdriniodd y Tîm â'r sefyllfa, yn gadarnhaol iawn.

Roedd lefel y galw am lety dros dro wedi amrywio'n sylweddol yng Nghymru, gyda llai o achosion mewn Cynghorau yng nghefn gwlad o gymharu ag ardaloedd mwy trefol a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r niferoedd a oedd yn eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref.

Esboniodd yr Ymgynghorydd Digartrefedd fod grŵp lobïo Shelter Cymru yn ystyried cadarnhau'r newidiadau a wnaed yn ystod y pandemig a chael gwared â'r meini prawf digartrefedd yn gysylltiedig ag angen blaenoriaethol. Roedd hi'n ymddangos fel pe bai LlC am ddilyn model tebyg i'r Alban a throsi'r canllawiau cyfredol yn ddeddfwriaeth fwy parhaol gan gadarnhau gwaddol i roi terfyn ar ddigartrefedd. Er na fyddai'n rhaid i Gynghorau ymdrin â materion na phenderfyniadau cynhennus mwyach, teimlai Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus mai'r her yn sgil diddymu angen blaenoriaethol yn y pen draw fyddai gorfod asesu sut i symud niferoedd mawr o bobl o lety dros dro i lety parhaol, ac ystyried mesurau, ee, i 'symleiddio'r' broses gyffredinol ar gyfer darparu tai.

Roedd yr Ymgynghorydd Digartrefedd yn rhagweld 'storm berffaith' yn y dyfodol agos, lle gallai cynnydd mewn achosion o droi pobl allan o'u tai gyd-daro â chynnydd sydyn mewn prisiau tai a fyddai'n peri i landlordiaid preifat werthu eu heiddo (roedd hyn yn bryder a fynegwyd hefyd gan Arweinydd Tîm y PRS), gan dynnu eiddo rhent o'r farchnad dai, yn ogystal â'r penderfyniad i gael gwared â'r taliad atodol o £20 o Gredyd Cynhwysol (CC).

O ran polisi dyrannu tai'r Cyngor, roedd y Cyngor yn gweithio'n unol â pholisi dyrannu penodol, a oedd yn blaenoriaethu ystafelloedd ar sail angen, ac yn defnyddio'r meini prawf digartrefedd a 'rhesymolrwydd' wrth ddyrannu llety i bobl. Fodd bynnag, nid oedd rhesymolrwydd wedi'i ddiffinio mewn cyfraith nac yn unrhyw le arall, felly roedd y penderfyniadau hynny'n oddrychol, a gallai'r Cyngor benderfynu yn ôl ei ddoethineb. Gan hynny, efallai y dylai Swyddogion ofyn am safbwynt rhywun nad yw'n Swyddog ynghylch sut i gymhwyso rhesymolrwydd fel maen prawf. Awgrymodd y Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus y gallai hwn fod yn faes y dylai'r Grŵp ei ystyried, yn ogystal ag effaith blaenoriaethu'r digartref ar denantiaid presennol a'u hanghenion, hy, pe baent yn ceisio symud o'u llety oherwydd newid mewn amgylchiadau. O ran deddfwriaeth, ychwanegodd yr Ymgynghorydd Digartrefedd mai'r ffocws oedd digartrefedd ei hun, yn hytrach na dyrannu, a bod rheidrwydd i Gynghorau roi'r flaenoriaeth i ddigartrefedd yn sgil hynny.

O ran enghreifftiau o 'arfer gorau' wrth symud i ffwrdd oddi wrth angen blaenoriaethol ar wahân i'r Alban, ni wyddai'r Ymgynghorydd Digartrefedd am unrhyw enghreifftiau y gellid cymharu'n uniongyrchol â nhw, ond cyfeiriodd at rai gwledydd Ewropeaidd (Ffrainc, yr Almaen a'r Gwledydd Nordig), lle'r oedd mesurau gwell i amddiffyn tenantiaid o fewn y

sector preifat, fel prydles a daliadaeth hwy, a phwyslais cryfach ar rentu, a allai fod o gymorth i gadw digartrefedd mor isel ag sy'n bosibl yn y gwledydd hyn.

O ran ymgyrchoedd Shelter Cymru i sicrhau rhent tecach yng Nghymru, nid oedd yr Ymgynghorydd Digartrefedd wedi clywed unrhyw beth penodol am hyn, ond bu anniddigrwydd cyffredinol ynghylch y cynnydd ym mhrisiau rhent dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, y prif ffocws ar hyn o bryd oedd cael gwared â'r maen prawf angen blaenoriaethol, er bod Shelter Cymru wedi cyfrannu at ddeddfwriaeth ddiweddar ynghylch rhenti preifat. Roedd ymgyrchoedd yn tueddu i gael eu hysgogi gan y prif bryderon a phroblemau yr oedd pobl yn eu rhannu a gweithwyr achos ar lawr gwlad.

### (iii) Tîm y Sector Preifat (Cyngor Bro Morgannwg)

Yna cafodd y Grŵp friff gan y Swyddog Caffael Rhentu Preifat yng Nghyngor Bro Morgannwg ar waith ei dîm o fewn y Cyngor.

Bu'n gweithio fel aelod o'r Tîm Atebion Tai, yn gofalu am Gynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro (VATS).

Roedd VATS yn helpu pobl o gefndir digartref i gael llety, hy, yn eu helpu i dalu eu mis cyntaf o rent ymlaen llaw ac/neu roi bond sicrwydd i landlordiaid yn y sector preifat.

Byddai VATS yn gweithio gyda landlordiaid ac asiantau gosod i ganfod a llenwi eu heiddo a phobl a oedd yn gallu fforddio talu'r lefel angenrheidiol o rent yn y sector rhentu preifat.

Byddai VATS yn defnyddio system ar-lein a allai helpu tenantiaid drwy alluogi iddynt ymgeisio am y budd-daliadau perthnasol a'u derbyn.

Bu tri gweithiwr ar secondiad o Pobl hefyd yn helpu gyda thrwyddedau, er mwyn canfod problemau fforddiadwyedd / unrhyw broblemau mewn achosion lle roedd tenantiaethau llety rhent yn methu o fewn y sector preifat.

Roedd VATS wedi bod yn weithredol ers 15 mlynedd; defnyddiai gyfradd y farchnad yn hytrach na'r gyfradd tai lleol. Roedd hyn yn golygu, er enghraifft, taliad atodol cyfartalog o £100-150 am dŷ 3 ystafell wely ym Mro Morgannwg.

Byddai cleientiaid yn cael ei hasesu o ran eu sefyllfa ariannol, y budd-daliadau yr oeddent yn eu hawlio a'u gallu i fforddio rhent.

Ni fu unrhyw gorddi eto yn y farchnad eiddo rhent preifat yn gysylltiedig â dyledion a throi tenantiaid allan, oherwydd bod yr achosion hynny wedi ôl-gronni yn y llysoedd.

Dyma nifer y cartrefi a oedd wedi derbyn cymorth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf:

- 6 mis cyntaf 2021 – 20;
- 2020 – 40+;
- 2019 – tua 79.

Byddai'r Tîm Atebion Tai yn trefnu 'Fforymau Landlordiaid' ac yn cadw cronfa ddata yr oedd 200+ o landlordiaid y sector preifat wedi cofrestru arni.  Roedd y Cyngor yn hysbysu'r landlordiaid hyn ynghylch y ddeddfwriaeth ddiweddaraf ac yn gofyn iddynt yn rheolaidd a oedd ganddynt gartrefi un ystafell wely (a oedd yn brin ar hyn o bryd) y gallent eu llenwi ag ymgeiswyr drwy VATS.

Roedd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda landlordiaid ac roedd hynny yn y pen draw yn helpu i atal digartrefedd, hy, byddai'r Tîm Tai yn cysylltu â landlordiaid pe bai tenantiaid yn ei chael hi'n anodd talu'r rhent i weld a ellid datrys y sefyllfa.  Dros y chwe mis diwethaf, roedd cydweithio a mesurau o'r fath wedi bod o gymorth i achub 36 o denantiaethau (ac roedd 112 o denantiaethau wedi'u hachub dros y 3.5 mlynedd diwethaf).

Her fawr i'r Tîm Tai oedd nad oedd digon o eiddo ar gael i'r bobl a oedd yn cysylltu â nhw; yn enwedig llety un ystafell wely.  Roedd hi hefyd yn anodd i landlordiaid drosi adeiladau i greu fflatiau un ystafell wely yn sgil deddfwriaeth gyfredol, hy byddai'n rhaid i landlordiaid dalu i osod mesurau diogelwch fel system chwistrellu dŵr.

Bellach roedd hi hefyd yn bwysig adfywio Fforwm y Sector Rhentu Preifat, a oedd yn gyfrwng i landlordiaid  leisio'u barn wrth LIC, yn ogystal â rhannu syniadau ynghylch arfer gorau â Chynghorau eraill Cymru.

Roedd Cynghorau Cymru, fel Gwynedd ac Ynys Môn, wedi gweithredu gwarantau tenantiaeth 3-6 mis.  Roedd Cyngor Bro Morgannwg hefyd wedi ceisio gweithredu mesurau o’r fath (gwarantau tenantiaeth 6-12 mis) gyda landlordiaid lleol ac annog mwy o landlordiaid i ymrwymo i’r rhain.

Roedd LIC yn bwriadu cyflwyno cynllun prydlesu ledled Cymru (byddai cynghorau lleol yn prydlesu eiddo landlord dros nifer o flynyddoedd).  Roedd y Fro wedi gofyn am gymorth landlordiaid gyda hyn, ond nid oeddent wedi cael ymateb sylweddol hyd yma; nid oedd darparwyr yswiriant a morgais fel arfer yn fodlon â phrydlesi o'r fath.

Hefyd, roedd her arall o'n blaenau gyda llawer o denantiaid a landlordiaid yn dal i ddefnyddio asiantau gosod yn hytrach na VATS a'r Tîm Atebion Tai, gyda hyd at 20 o bobl yn ymgeisio i rentu eiddo un ystafell wely.

Ychwanegodd Swyddog Caffel Rhentu Preifat fod angen edrych ar ffyrdd newydd i annog landlordiaid i dderbyn tenantiaid drwy'r Cyngor, hy, cynnig gwarant ar gyfer unrhyw ddifrod maleisus.  Dyma brif bwyntiau gwerthu'r gwasanaeth ar hyn o bryd:

- Dim ffi canfod (yn wahanol i asiantau gosod eiddo).
- Po hiraf yr oedd gan y Cyngor berthynas waith â landlordiaid preifat, y mwyaf oedd yr ymddiriedaeth a oedd yn cael ei meithrin, a pherthynas yn cael ei sefydlu'n seiliedig ar degwch ac ar gadw'r ddysgl yn wastad rhwng landlordiaid a thenantiaid.
- Roedd y Cyngor yn feddwl-agored ac yn realistig yn ei agwedd at landlordiaid, gan dderbyn bod angen iddynt wneud bywoliaeth.

Dywedodd y Swyddog Caffael Rhentu Preifat fod cyfradd y farchnad ar gyfer rhenti tai wedi codi, gyda rhai prisiau rhent yn codi o £620 i £700 y mis, ond gallai hyn ostwng yn y dyfodol pe bai'r farchnad yn 'oeri'.

Esboniodd hefyd fod 342 o bobl wedi cael eu cartrefu dros oes y cynllun, a bod y denantiaeth hiraf yn 15 mlynedd o hyd, ac y bu cyfradd lwyddo gyffredinol o 95% yn ystod y pandemig. O ran y 5% arall, a oedd yn cynnwys y tenantiaethau mwy heriol, byddai VATS yn helpu i gefnogi'r landlord a'r tenant, er enghraifft, byddai'r landlord yn cael cymorth i dynnu'r tenant o'r eiddo pe bai angen, er mwyn cadw cefnogaeth y landlord a sicrhau bod y tŷ yn dal i fod ar gael ar gyfer darpar denantiaid. Ar y llaw arall, byddai VATS yn cysylltu â Iechyd yr Amgylchedd i sicrhau bod landlordiaid yn gwneud unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol ar yr eiddo.

**Y Diweddaraf gan Reolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus ynghylch opsiynau posibl i ymdrin â'r Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd**

Yn rhan o'r diweddariad hwn i'r Grŵp, gofynnodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus a oedd gan y Grŵp unrhyw awgrymiadau neu syniadau ynghylch darpariaeth tai a digartrefedd. Dyma'r awgrymiadau a gafwyd:

- Caffael stoc tai gwag yn y Fro.
- Defnyddio Cymdeithasau Tai ac RSLs i ddefnyddio tai o'r newydd (hy, fel y gwelwyd ar Stryd Thompson, Y Barri) neu drwy ddarparu adeiladau newydd, a fyddai'n golygu bod mwy o lety sengl yn cael ei ddarparu.
- Y posibilrwydd o ddad-ddynodi eiddo sydd wedi'i ddynodi ar gyfer pobl 55 oed yn unig ar hyn o bryd, a'r angen i symud i ffwrdd oddi wrth system a allai fod yn ysgogi llety dros dro ar draul mathau mwy parhaol o lety ac atebion tai. Byddai hyn yn cynnwys:
    - Cynyddu'r cyflenwad tai;
    - Ystyried ehangu tai'r sector rhentu preifat; ac
    - Adolygu'r broses ddyrannu.
- Sicrhau bod datblygwyr eiddo masnachol yn bodloni eu cwotâu ar gyfer tai fforddiadwy. Dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod Swyddog Adran 106 y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau bod datblygwyr yn bodloni eu rhwymedigaethau i ddarparu tai fforddiadwy.

**Trosolwg a diweddariad gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru (LlC) am y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd o fewn LlC mewn perthynas â mentrau ailgartrefu a strategaethau cysylltiedig, ac ati.**

Roedd y Grŵp yn croesawu'r cynrychiolwyr o adrannau'r Polisi Tai, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru (LlC), a roddodd drosolwg o'r gwaith a'r polisïau sy'n cael eu datblygu neu eu cyflawni ar hyn o bryd gan LlC.

Cynllun a oedd yn allweddol i bolisi Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer digartrefedd oedd y dull Ailgartrefu Cyflym a fyddai'n helpu i ddiwygio ymagwedd LlC a Llywodraeth Leol at

ddigartrefedd ac, yn y pen draw, atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf. Byddai hyn yn golygu nid yn unig cydweithredu rhwng timau digartrefedd LIC a'r timau cyfatebol yn Awdurdodau Lleol Cymru, ond hefyd cydweithwyr o fewn y Strategaeth Tai, timau datblygu landlordiaid, landlordiaid tai preifat a chymdeithasol, ac ystyried blaenoriaethau adeiladu a dyrannu.

Tynnwyd sylw hefyd at effeithiau corfforol, ariannol a meddyliol digartrefedd, gan ddangos pa mor annioddefol oedd hi i bobl fyw yn y sefyllfa honno, ac fel sail resymegol allweddol pam nad oedd LIC yn dymuno dychwelyd i'r statws quo cyn y pandemig a thros gael gwared â'r meini prawf angen blaenoriaethol ar gyfer tai.

Roedd y daith i gyrraedd y sefyllfa hon yn cynnwys gweithredu Deddf Tai 2014, gydag adran 2 yn amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer digartrefedd, a sut i'w atal yn y pen draw. Golygai hyn mai Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf i ystyried atal hynny, gyda LIC a Chynghorau lleol yn monitro tenantiaethau. Yn 2019, yn sgil lefelau cynyddol mewn digartrefedd yng Nghymru, gofynnodd LIC am gael sefydlu Grŵp Gweithredu Digartrefedd i ystyried sut i fynd i'r afael â hyn. Roedd adroddiad dilynol y Grŵp hwnnw'n argymell ymagwedd drosiannol gan LIC a Llywodraeth Leol dros gyfnod o bum mlynedd, tuag at ymagwedd ailgartrefu cyflym a 'Thai yn Gyntaf', a dyna fyddai'r ymagwedd ddiofyn. Byddai hyn yn cynnwys amserlen drosiannol er mwyn caniatáu amser i gynyddu'r stoc tai ac, i gyfateb â hynny, gostwng gwariant acíwt, er y byddai'r cyllid hwnnw'n parhau i fod ar gael ar gyfer cymorth/llety byrdymor i nifer fach o bobl yn y dyfodol.

Roedd y Pandemig hefyd wedi bod yn gatalydd pellach i newid polisïau digartrefedd, gyda'r angen i sicrhau bod pobl ddigartref ag anghenion cymhleth, neu heb anghenion cymhleth, yn cael llety dros dro yn gyflym. Roedd hyn wedi rhoi darlun cliriach a chywirach i LIC ac Awdurdodau Lleol o lefel digartrefedd yng Nghymru, a oedd yn llawer uwch nag a dybiwyd yn flaenorol. Roedd 12,000 o bobl ledled Cymru wedi cael eu cartrefu mewn llety dros dro, a thua 6,000 yn dal i fod mewn llety o'r fath ar hyn o bryd.

Roedd Rhaglen Lywodraethu 2021 yn nodi ymrwymiad LIC i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu'n gyflym. Dyma oedd egwyddorion creiddiol Ailgartrefu Cyflym:

- Symud i ffwrdd yn bendant oddi wrth y pwyslais ar gartrefu pobl mewn llety dros dro a thuag at helpu pobl ddigartref i ganfod tai mwy parhaol a sefydlog yn lle hynny; byddem yn ymdrin â'u hanghenion cymorth eraill ar yr un pryd, yn hytrach na gwneud hynny'n ddiweddarach.
- Cael gwared â'r maen prawf i bobl ddigartref fod yn 'barod am dŷ' neu i reoli tenantiaeth, er mwyn cael llety sefydlog; oherwydd y safbwynt nad yw llety dros dro yn rhoi'r profiad a'r sgiliau priodol i bobl allu datblygu'n denant llwyddiannus.
- Byddai pecyn o gymorth a chefnogaeth aml-asiantaeth yn cael ei gynnig, wedi'i gynllunio'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion unigol a phenodol y rhai a fyddai'n cael mynediad at lety drwy'r dull hwn, a fyddai wedyn yn atal datblygiad neu'n lleihau difrifwch anghenion cymhleth neu broblemau cronig.

Nid oedd Ailgartrefu Cyflym yn cael gwared â'r angen am lety dros dro brys pan oedd yr angen hwnnw i'w weld yn glir. Yn hytrach, nodai'n syml mai'r hyn a fyddai'n sicrhau'r canlyniadau gorau (i'r unigolyn ac i'r pwrs cyhoeddus) fyddai galluogi pobl i gael mynediad at gartref fforddiadwy, sefydlog a safonol yn gyflym, a chyda'r gefnogaeth gywir os oedd angen.

Roedd yr adnoddau a'r gefnogaeth ar gyfer Ailgartrefu Cyflym yn cynnwys ymrwymiad gwleidyddol clir ar draws pleidiau gwleidyddol, yn lleol ac yn genedlaethol, ymrwymiad gweinidogion LlC i edrych ar hyn mewn modd cyfannol a gweithio gyda landlordiaid y sector cymdeithasol a phreifat, cydweithio cryfach â phartneriaid (yn sgil y pandemig), y cyfle i edrych ar arfer gorau ym model Ailgartrefu Cyflym yr Alban, ac ymrwymiad i ddiwylliant rheoli tai sy'n fwy ystyriol o drawma ar draws llawer o landlordiaid cymdeithasol, yn ogystal â chyswllt gwell rhwng cymorth tai a'r cyngor a roddir ynghylch digartrefedd.

Roedd heriau i'r ymagwedd newydd hon yn cynnwys diwylliant o 'oddefedd' ac o dderbyn llety dros dro a gofynion parodrwydd am dai, cyfyngiadau ar y cyflenwad tai, cyfyngiadau presennol ar ddarparu ymagwedd gwbl gydgysylltiedig rhwng yr holl bartneriaid a'r cyrff allweddol (fel LlC, Llywodraeth Leol a'r GIG), a'r pwysau ar staff tai rheng flaen, a hefyd ar ddyrannu tai.

Roedd LlC yn deall ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cael ymagwedd gydgysylltiedig a seiliedig ar bartneriaeth i sicrhau bod Ailgartrefu Cyflym yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a'i gydgynhyrchu, ee, ar y cyd â landlordiaid preifat a chymdeithasol, Cynghorau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a phobl â phrofiad byw o ddigartrefedd.

Byddai'r canllawiau ar Ailgartrefu Cyflym yn cael eu cyhoeddi cyn pen y pythefnos nesaf, a phapur gwyrdd yn cael ei ryddhau dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Ar y cyd â Chynghorau lleol, roedd LlC yn sefydlu cynllun i helpu Cynghorau lleol i weithredu a throsglwyddo i'r ymagwedd Ailgartrefu Cyflym o fewn y pum mlynedd nesaf.

Byddai’r cynllun a’r canllawiau a ddarperir yn helpu Cynghorau lleol i gyflawni’r ymagwedd Cartrefu Cyflym, yn seiliedig ar y data amrywiol sydd ar gael ar bob agwedd ar ddigartrefedd, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), y cyflenwad/galw am dai yn lleol, a dyma oedd yr 'adeg orau' i gael darlun mwy gwirioneddol o faint digartrefedd yng Nghymru.

Yn rhan o hyn, byddai Awdurdodau Lleol yn cynnal asesiad o anghenion 6,000 o bobl ddigartref sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Byddai hynny'n rhoi data iddynt ar y prif dueddiadau ac ati ac ar y lefelau amrywiol o anghenion (o gymorth lefel isel hyd at ofynion dwys 24/7) yr oedd ar y bobl ddigartref hyn, a phobl eraill a oedd yn eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref angen cefnogaeth ar eu cyfer. Derbyniwyd na fyddai nifer fach o bobl yn gallu byw'n annibynnol, ac y byddai angen iddynt ddibynnu ar lety â chymorth, ond byddai'n dal yn bosibl i helpu'r rhain i lety mwy sefydlog yn y tymor hwy.

Ar y cyd â'r Cynllun Cartrefu Cyflym, byddai angen i Awdurdodau Lleol adeiladu eu capasiti Tai yn Gyntaf, gan fod prosiectau o'r fath wedi dangos eu bod yn gallu llwyddo i

dorri cylch digartrefedd defnyddwyr gwasanaeth, a'u symud ymlaen i dai annibynnol a pharhaol. Roedd hynny'n arbennig o fuddiol i'r defnyddwyr gwasanaeth lle nodwyd anghenion lefel uwch.

Rhagwelwyd y byddai newid o ymagwedd sy'n seiliedig ar ddarparu llety dros dro yn ddiofyn hyd at fodel tai mwy sefydlog ac effeithlon yn heriol, ac y byddai'n cymryd amser i Gynghorau weithredu hyn yn sgil adnoddau a ffactorau eraill. Fodd bynnag, roedd hi'n bwysig dechrau meddwl am yr ymagwedd hon nawr, er mwyn gallu ei chyflawni yn y tymor hwy. O dan yr ymagwedd newydd hon, rhagwelwyd y byddai pobl ddigartref yn symud i ffwrdd oddi wrth lety dros dro i lety sefydlog neu lety Tai yn Gyntaf o fewn diwrnodiau i'w cyflwyno'u hunain, o dan system ac ymagwedd ddyrannu gyfannol wedi'i symleiddio.

Yn amlwg, roedd tai eu hunain yn hollbwysig er llwyddiant Ailgartrefu yn Gyflym, a byddai angen cyfrannu data ar argaeledd tai ac ati, ochr yn ochr â gwybodaeth am anghenion defnyddwyr gwasanaeth i'r grantiau tai amrywiol, yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

Ar ben hynny, byddai angen ymgorffori'r ymagwedd newydd hon i'r Strategaeth Tai Fforddiadwy ehangach, a'r targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru.

Roedd angen i'r ymagwedd Ailgartrefu Cyflym hefyd gydnabod y demograffeg allweddol dan sylw, fel bo modd gweithredu'r tai, y cymorth a'r atebion priodol, hy, roedd 80% o'r bobl hynny a oedd yn eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn perthyn i'r categori unigolyn sengl.

O ran dyrannu tai a grwpiau sy'n agored i niwed, atebodd y Swyddog Polisi Tai drwy ddweud, hy, y byddai'r mwyafrif o oroeswyr cam-drin domestig yn cael eu cartrefu mewn lloches i ddechrau; ar be hynny, o dan Reoliadau Dyrannu Tai 1997, yr Awdurdodau Lleol oedd i ddyrannu tai ar sail y meini prawf a osodwyd. Roedd dyraniadau o’r fath yn gymhleth, gyda Chynghorau lleol yn gorfod edrych ar y cyflenwad o dai priodol er mwyn bodloni anghenion y bobl hynny â blaenoriaeth, a hefyd yn erbyn rhestrau aros tai, y system 'pwyntiau', asesiadau o angen a'r bobl hynny a oedd yn cael eu hystyried yn barod i gael tŷ. Cydnabu nad oedd digon o dai o fewn dyraniadau tai, ond mai nod Ailgartrefu Cyflym yn y pen draw fyddai datrys hyn drwy wella'r broses a'r cyflenwad tai, a fyddai'n cynnwys y bobl hynny a gartrefir mewn llochesi. Er gwaethaf canfyddiad bod pobl yn 'neidio'r ciw' o ran tai, nid oedd hynny'n wir, oherwydd byddai anghenion a hanes unigolion yn cael eu hystyried yn ofalus wrth ddyrannu tai iddynt. Ychwanegodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus mai’r Cyngor oedd â’r gair olaf wrth osod tai a’i bod yn broses heriol lle roedd prinder tai difrifol (yn hytrach na rhwystrau o fewn y system) a lefel uchel o alw, ac roedd yr angen i geisio cartrefu pobl yng nghategorïau uchaf Homes4U yn cael ei osod yn erbyn yr angen i ganfod llety i bobl ddigartref. Roedd yr angen i ddefnyddio llety dros dro ar raddfa fawr ar gyfer y tymor hwy er mwyn ateb y galw yn parhau i fod yn opsiwn drud, ond yn opsiwn angenrheidiol.

Dywedodd y Cadeirydd mai rhan o'r her yn gysylltiedig â'r ymagwedd gyfredol at dai, a'r ymagwedd a gynigiwyd drwy Ailgartrefu Cyflym, oedd y ffaith nad oedd tai cymdeithasol

wedi cael eu hadeiladu ers cyfnod hir, a bod y stoc tai cymdeithasol a oedd ar gael wedi cael ei gwerthu.

O ran modelau arfer gorau eraill ar gyfer Ailgartrefu Cyflym, atebodd y Swyddog Polisi Tai drwy ddweud nad oedd llawer o'r modelau hynny ar gael, ond bod Tai yn Gyntaf wedi cael ei fabwysiadu yn rhannau o Ewrop a'r Unol Daleithiau. Roedd hi'n werth nodi model arall, fodd bynnag, sef y Ffindir, lle roedd ei chynllun Ailgartrefu Cyflym (a oedd hefyd yn cyfuno ymagwedd Tai yn Gyntaf) wedi golygu trawsnewid 80-90% o dai dros dro yn dai parhaol neu led-barhaol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o gartrefi i bobl sengl, y gallent symud allan ohonynt wrth ddechrau teulu. Er bod rhai Cynghorau yng Nghymru wedi edrych ar y model hwn (fel Caerdydd), y prif ffocws fyddai'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan yr Alban.

Holwyd ynghylch y cyllid a oedd wedi'i ddarparu i Awdurdodau Lleol hyd at fis Mawrth 2021 ar gyfer tai dros dro 'ar unwaith'. Roedd y Fro wedi gwneud defnydd da o'r cyllid hwn, a gofynnwyd a fyddai'r cyllid ar gael yn y dyfodol. Dywedodd y Swyddog Polisi Tai y byddai'r cyllid hwnnw yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r Strategaeth Tai Fforddiadwy, a gallai fod yn rhan o'r gyllideb a'r cyllid a ddarperir yn y dyfodol gan LlC. Ychwanegodd ei bod hi'n bosibl bod angen i Awdurdodau Lleol ddrafftio cynlluniau o'r fath yn gysylltiedig â thai dros dro / ar unwaith yn y cyfamser p'run bynnag, er mwyn iddynt fod 'ar y silff' yn barod am yr adeg pan y gallai cyllid fod ar gael; gallai hyn fod yn llwybr i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd ei ystyried yn rhan o'i adolygiad. Byddai adolygiad o wariant hefyd yn cael ei gynnal yn fuan, a byddai cyllideb LlC yn cael ei phennu a allai gynnwys cyllid ar gyfer tai cymdeithasol ar unwaith ymhlith ei blaenoriaethau. Byddai cyllid caledi hefyd yn sicr hyd fis Ebrill 2022.

## Y Diweddaraf gan Gynrychiolydd Tai Newydd

Briffiodd y Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau, Cymdeithas Tai Newydd y Grŵp ar y gwaith a wneir gan y sefydliad i gefnogi darpariaeth tai cymdeithasol ac atal digartrefedd.

Roedd Cymdeithas Tai Newydd yn cydweithio'n agos iawn â Chyngor Bro Morgannwg ar ddarpariaeth tai a digartrefedd; er enghraifft, roedd Newydd yn aelod o gynllun dyrannu HOMES4U lle roedd gan y Cyngor hawl enwebu 100% ar ddatblygiadau newydd ac wrth ail-osod eiddo.

Roedd gan Newydd 1,774 o dai yn y Fro, a olygai ei bod ymhlith y cymdeithasau tai mwyaf a weithredai yn yr ardal.

Roedd Newydd wedi bod yn allweddol er mwyn cyflawni nifer o gynlluniau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fu o gymorth i ymdrin â darpariaeth tai a digartrefedd, hy, yn 2020/21, roedd 65 o gartrefi 1 a 2 ystafell wely newydd yn y Barri a Phenarth, mewn lleoliadau yn Junction House (The Goods Shed), Eglwys Sant Paul, Neuadd Dinam a 21 Heol Porthkerry wedi cael eu trosglwyddo i Newydd. Llwyddwyd i gyflawni'r rhain ar y cyd â Chymdeithas Tai Newydd, y Cyngor, LlC a phartneriaid preifat, gyda chyllid o

ffynonellau amrywiol, fel y Cyllid Grant Tai Arloesol, y Grant Tai Cymdeithasol, cyllid cymunedol a chyllid o fenthyciadau Adfywio Canol Trefi.

O ran prosiectau sydd ar-safle ar hyn o bryd, bu Newydd yn ymwneud â phrosiectau tai yn Seaview Labour, Gwesty’r Castell a The Windsor yn y Barri, a gwblhawyd rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2022.  Byddai'r rhain yn golygu darparu nifer sylweddol o unedau 1 a 2 ystafell wely.

O ran cynlluniau ar gyfer prosiectau tai yn y dyfodol, roedd dau o bwys arbennig, sef:

- Ail gam Goodshed 2, Y Barri, er mwyn datblygu’r tir ar ochr orllewinol y datblygiad presennol yn y Barri gan ddarparu 34 o gartrefi (8 x 2 wely a 26 x 1 gwely).  Roedd y cynlluniau perthnasol wedi cael eu cyflwyno, ac roedd disgwyl ymateb ym mis Rhagfyr 2021.  Byddai'r datblygiad hefyd yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.
- 50 Heol Holton, Y Barri; roedd cynigion i adnewyddu'r lleoliad hwn drwy ddarparu 9 x cartref 1 ystafell wely.

Roedd Newydd hefyd yn ymwneud â mesurau atal digartrefedd er mwyn cynnal tenantiaethau presennol a'r dyfodol o fewn y gymdeithas, gan gynnwys:

- Modiwlau Parod am Denantiaeth wedi'u cyflwyno drwy Google Classroom.
- Asesiad risg o anghenion tenantiaid (yn seiliedig ar raddfa uchel, canolig neu isel).
- Cefnogaeth gan 3 Swyddog Cynhwysiant Ariannol a roddai gyngor ar fudd-daliadau, grantiau a mathau eraill o gyllid (fel grantiau dewisol) i denantiaid, yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau cael gwared â'r £20 ychwanegol mewn Credyd Cynhwysol arnynt.  Yn rhan o hyn, roedd Newydd hefyd yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth tenantiaid ynghylch y newidiadau i Gredyd Cynhwysol drwy gyfres o ddeunyddiau a oedd yn cyfathrebu â thenantiaid drwy amryw o wahanol ffyrdd.
- Darparu hyfforddiant digidol i denantiaid Newydd, yn ogystal â gweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg i ddarparu hyfforddiant i wella cyflogadwyedd tenantiaid o fewn y farchnad swyddi.
- Cynnal tenantiaethau trwy -
    - Ymagwedd newydd at gasglu incwm, sy'n canolbwyntio mwy ar y tenant, er mwyn annog tenantiaid i gysylltu â Newydd os ydynt yn profi unrhyw anawsterau ariannol, i weld sut y gellid cefnogi eu tenantiaeth;
    - Strategaeth cynaliadwyedd tenantiaeth, yn targedu ymyraethau at y tenantiaethau hynny lle'r oedd trafferthion, yn ogystal â meithrin perthnasoedd cryfach â thenantiaid a chydweithio'n agos â'r holl dimau perthnasol yn Newydd i wella gwasanaethau tenantiaid.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau fod gan Newydd Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y gallai tenantiaid gysylltu ag ef (rhannodd y manylion cyswllt â'r Grŵp). Dywedodd hefyd fod ymweliadau'n cael eu cynnal â chartrefi tenantiaid os oedd angen. Yn ystod y pandemig, roedd cyfraddau bodlonrwydd tenantiaid ag agweddau fel cynnal a

chadw ac atgyweirio wedi gostwng gan fod y gwaith yr oedd angen ei wneud wedi cronni, ond roedd y gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth.

Roedd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus yn dymuno ailadrodd bod Newydd yn bartner allweddol i'r Cyngor o dan darpariaeth tai, yn enwedig o ran datblygu llety ychwanegol i bobl sengl.

O ran bod yn allweddol er mwyn llwyddo i osod eiddo i bobl sengl ac adeiladu cymuned gynaliadwy, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau at y datblygiad blaenorol yn The Goods Shed fel enghraifft, lle roedd Newydd wedi cydweithio'n agos â'r Cyngor i ymdrin â chrynoadau mawr o bobl sengl yn y fflatiau. Yn rhan o hyn roedd mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i roi cymorth parhaus (a dwys lle bo angen) i denantiaid yn y lleoliad, gan gydweithio'n agos â swyddogion o'r Fro, yn ogystal â chyllid ar gyfer swyddog tai ychwanegol gan Newydd. Byddai cymysgedd o denantiaid a ddeuai o gefndir digartref, neu nad oeddent o gefndir digartref hefyd o gymorth i greu cymuned gynaliadwy a mwy cytbwys o dai lleol. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol y dylai'r enghreifftiau hyn o arfer gorau hefyd gael eu rhannu â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) eraill, er mwyn gwneud cynlluniau tebyg mewn ardaloedd eraill yn gynaliadwy.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau y byddai tîm Newydd o Swyddogion Cynhwysiant Ariannol yn cynnal sesiynau 'galw heibio' yn y Barri ar gyfer tenantiaid Newydd ynghylch Credyd Cynhwysol. Ar ben hynny, gan mai sefydliad canolig oedd Newydd, roedd perthnasoedd agos yn cael eu meithrin, a'r holl staff perthnasol o fewn y gymdeithas wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i gefnogi preswylwyr, hy, derbyniodd tîm cynnal a chadw mewnol Newydd hyfforddiant ar ddiogelu. Roedd swyddogion tai hefyd bellach yn cael eu hadleoli'n ôl i safleoedd Newydd ar ôl cyfnod o weithio o bell oherwydd y pandemig.

## Y Diweddaraf gan y Swyddog Adran 106

Rhoddodd Uwch Gynllunydd / Swyddog Adran 106 y Cyngor drosolwg a diweddariad i'r Grŵp am y Cytundeb Adran 106 a'r broses yn gysylltiedig â hynny.

Cytundeb cyfreithiol rwym â'r datblygwr/tirfeddiannwr ydoedd i gyfyngu ar ddatblygiad neu ddefnydd tir, i'w gwneud yn ofynnol cyflawni gweithrediadau neu gynnal gweithgareddau yn, ar, o dan neu dros y tir, i dir cael ei ddefnyddio mewn modd penodedig; neu fynnu bod taliadau'n cael eu gwneud i'r Awdurdod, naill ai fel un swm neu fesul cyfnod.

Dyma'r mathau o rwymedigaethau cynllunio y gellid eu sicrhau: cyfraniadau mewn da, ee bod y datblygwr yn cyflawni gwaith angenrheidiol yn uniongyrchol ar y safle, fel tai fforddiadwy (lle bo hynny'n ddichonadwy), cyfraniadau ariannol ar y safle / oddi ar y safle (fel gwella trafnidiaeth gyhoeddus, mynediad i gerddwyr a mesurau i leihau traffig, neu gyllid tuag at gyfleusterau cymunedol), a chyfraniadau cynnal a chadw ar gyfleusterau yr oedd y datblygwr wedi'u cyllido.

Roedd Adran 106 oddi mewn i fframwaith cynllunio a chanllawiau amrywiol, hy, Argraffiad 11 Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol 2: Tai Fforddiadwy, canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cyflenwi Tai Fforddiadwy gan ddefnyddio Cytundebau Adran 106, Diweddariad i'r Canllawiau' (2009) a Chynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Bro Morgannwg (2011-2026) a safonau newydd ar gyfer tai fforddiadwy drwy LlC.

O dan y CDLl, roedd y Cyngor wedi cynnal asesiadau strategol o hyfywedd ar nifer o safleoedd ar draws y Fro, ac roedd gofynion polisi'r Cyngor yn parhau i fod yn gyflawnadwy ac yn realistig. Roedd gofynion cynllunio lleol yn golygu bod angen i ddatblygiadau preswyl gynnwys lefelau penodol o dai fforddiadwy (gan gynnwys cynlluniau defnydd cymysg), hy, 30% yn y Barri; 35% yn Llanilltud Fawr, Y Rhws a Sain Tathan; a 40% yn y Bont-faen, Dinas Powys, Llandochau a Phenarth ymhlith eraill.

Roedd targed wedi'i osod i ddarparu 3,252 o anheddau fforddiadwy dros oes y CDLl cyfredol (2011-2026), ac roedd 1,622 o anheddau fforddiadwy ychwanegol eisoes wedi'u darparu rhwng 2011 a 2021. Byddai'r datblygwr hefyd yn rhoi cymhorthdal ar gyfer daliadaeth tai fforddiadwy.

Roedd trafodaethau Adran 106 yn cynnwys yr asesiad cychwynnol o oblygiadau Adran 106, y meysydd gwasanaeth perthnasol yr ymgynghorwyd â nhw, trafodaethau â'r datblygwr neu'r tirfeddiannwr i sicrhau'r rhwymedigaethau cynllunio, asesu unrhyw asesiadau hyfywedd nall ai'n fewnol neu drwy Wasanaethau Prisiwr y Sir, hyd at lofnodi'r Cytundeb Adran 106 terfynol, rhoi caniatâd cynllunio a chyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad.

Byddai ystyried hyfywedd tai fforddiadwy yn golygu edrych ar ffactorau amrywiol yn gysylltiedig â chostau datblygu, tir a rhwymedigaethau cynllunio; os nad oedd safle adeiladu'n hyfyw ar gyfer tai fforddiadwy, gallai'r datblygwr ddarparu arian yn lle hynny drwy broses dau gam, naill ai oddi mewn i ward y datblygiad neu wedi'i gyfeirio at ardal lle roedd angen difrifol, wedi i'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Aelodau Cabinet perthnasol gymeradwyo hynny.

Dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus y bu'r cyfraniadau a wnaed drwy gytundebau Adran 106 yn sylweddol, ac mae'n debygol eu bod yn uwch na'r arian a gafwyd drwy grantiau tai cymdeithasol.

O ran teimladau datblygwyr ynghylch darparu tai cymdeithasol: dywedodd y Swyddog Adran 106 fod datblygwyr tai wedi arfer gweithio oddi mewn i fframwaith Adran 106, er bod rhai safleoedd a thrafodaethau'n dal i fod yn heriol yn sgil problemau gwirioneddol yn gysylltiedig â hyfywedd neu'r posibilrwydd o gostau seilwaith mawr. Mewn achosion o'r fath, roedd hi'n hanfodol i'r Cyngor ystyried angen gwirioneddol o fewn y wardiau dan sylw, a cheisio canfod atebion wedi'u cynllunio'n arbennig, fel y gwnaed gynt yn Sain Tathan.

O ran a oedd RSLs yn darparu cyllid drwy Adran 106, esboniodd y Swyddog Adran 106 mai cytundeb ydoedd rhwng y datblygwr tai a'r Cyngor yn unig, ac y byddai'r RSL yn prynu neu'n derbyn y safle drwy ddyraniad yn ddiweddarach. Cyfraniad yr RSL wedyn

oedd sicrhau bod y cartrefi perthnasol ar y safle ar gael drwy HOMES4U ar gyfradd gymorthdaledig.

Cyfeiriodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus at y gofynion cyfredol i osod eiddo Adran 106 yn lleol o fewn y ward berthnasol, er y gallai anghenion tai preswylwyr fod yn fwy difrifol yn ardaloedd ehangach o'r Fro. Ei awgrym oedd y dylid yn bendant rhoi'r flaenoriaeth i breswylwyr lleol gael tai Adran 106, ond y dylid dyrannu'r tai hynny wedyn i breswylwyr o rannau eraill y Fro pe na bai digon o alw neu flaenoriaeth o fewn y ward ei hun.

Ategodd y Swyddog Adran 106 sylwadau'r Rheolwr Gweithredol ynghylch dyrannu tai Adran 106 yn lleol, gan ychwanegu bod potensial, wrth adolygu'r CDLl cyfredol, i bartneriaid y Cyngor, fel y GIG, LIC, ayyb gydweithio i ddatblygu safleoedd tai ychwanegol yn yr ardal yn y dyfodol, a gallai hyn fod yn rhywbeth i'w gynnwys fel argymhelliad yn adroddiad terfynol y Grŵp hwn.

O ran cyrraedd targed y CDLl o 3,252 o anheddau fforddiadwy, esboniodd y Swyddog Adran 106 fod y Cyngor yn dal ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn, ond bod hyn yn dibynnu a fyddai safleoedd ychwanegol ac addas ar gael yn y dyfodol. Roedd gan y Cyngor bum mlynedd o hyd i gyrraedd y targed hwn, a byddai hefyd yn parhau i edrych ar amcanestyniadau'r dyfodol o ran yr ardaloedd lle roedd yr angen mwyaf am dai, ar y cyd â phartneriaid RSL ac ochr yn ochr â'r rhaglen barhaus ac uchelgeisiol yr oedd yn ei chyflawni i adeiladu tai.

## Crynodeb o Waith y Grŵp ac Asesiad o'r Themâu a'r Materion a Godwyd

Yng nghyfarfod olaf y Grŵp, cafwyd nifer o sylwadau a chasgliadau, gan gynnwys:

Holodd yr Aelodau ynghylch cynlluniau rhent canolradd, ac ymatebodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus mai ond nifer fach o gartrefi o'r fath a oedd yn cael eu cynnal o dan y cynllun hwn ar gyfer y mathau o eiddo lle roedd y galw mwyaf amdanynt (cartrefi 1 a 2 ystafell wely). Roedd hi'n debygol na fyddai Cymdeithasau Tai fel Newydd yn ailadrodd y model hwn mewn ardaloedd eraill, ond byddai'r galw neu angen am lety cynllun rhent canolradd fel hyn yn parhau, ynghyd â llety a pherchentyaeth cost isel a llety i bobl sengl.

Byddai'r ffigurau o'r Asesiad Marchnad Dai Leol yn ddefnyddiol er mwyn i'r Cyngor bennu ei flaenoriaethau o ran dyrannu, hy, pobl sengl a grwpiau eraill a allai fod â'r angen mwyaf am dai.

O ran ymholiadau'r Aelodau ynghylch blaenoriaethau dyrannu pobl sy'n byw'n lleol neu â chysylltiad ag ardal leol, cadarnhaodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod y trefniadau blaenoriaethu hyn ar waith wrth osod adeiladau newydd yn lleol mewn ardaloedd gwledig, ond heb fod ar waith yn ardaloedd y Barri a Phenarth. Cydnabuwyd ei bod hi'n anodd i bobl leol gael eu troed ar yr ysgol dai yn rhai rhannau o'r Fro oherwydd maint yr incwm angenrheidiol. Fodd bynnag, gallai trefniadau i flaenoriaethu fel hyn fod yn ddadlennol, gan ei bod hi'n bosibl na fyddai'r bobl mwyaf anghenus o ran tai o reidrwydd â chyswllt cymwys â'r ardal lle roedd tai ar gael. un posibilrwydd oedd rhoi'r

flaenoriaeth i breswylwyr lleol gael tai newydd yn gyntaf, ac wedyn os nad oedd digon o law o blith y grŵp hwnnw, eu dyrannu i breswylwyr eraill o ardaloedd eraill yn y Fro a chanddynt yr angen mwyaf o ran tai.

Cynigiwyd ateb posibl ar gyfer ardaloedd gwledig a phrinder tai, sef denu mwy o landlordiaid preifat a allai fod ag eiddo yn yr ardaloedd hyn i gydweithio â'r Cyngor, ac roedd y Swyddog PRS wedi awgrymu'n flaenorol y gallai fod yn bosibl denu a chadw landlordiaid preifat drwy warantu taliadau rhent, bondiau ac ati. Er bod hyn yn awgrym da, atgoffodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod nifer y landlordiaid preifat mewn ardaloedd gwledig yn llawer llai nag yn ardaloedd mwy trefol y Fro. Hefyd, er bod rhoi sicrwydd rhent ac ati yn ffordd wych o gymell landlordiaid preifat i ddarparu tai cymdeithasol, gallai hynny adael y Cyngor yn fwy atebol i warantu unrhyw golledion a fyddai'n cronni.

Awgrymwyd bod angen i'r Grŵp fabwysiadu agwedd 'feiddgar' wrth gymell a sicrhau landlordiaid preifat cyfredol a'r dyfodol a ddymunai gynnig llety drwy'r Cyngor, a'u hatal rhag gwerthu eu heiddo. Ychwanegwyd y gallai fod yn well i'r Cyngor, yn hytrach na cheisio gwarantu colledion landlordiaid, ystyried cynnig mathau eraill o gymorth i landlordiaid, ac edrych ar arfer gorau yn y maes hwn, fel yr hyn yr oedd Cynghorau eraill yn ei wneud. Cyfeiriodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus at Gyngor Caerdydd a rhai Awdurdodau Lleol eraill fel enghreifftiau lle roedd model gosod eiddo cymdeithasol wedi'i roi ar waith a fyddai'n golygu bod landlordiaid yn ildio eu heiddo i'r Awdurdodau am 5 mlynedd ac wedyn yn eu cael yn ôl mewn cyflwr rhesymol, a chyda'r taliadau rhent wedi'u sicrhau. Gallai hyn fod yn fodel i'w ystyried gan y Fro, ond nid oedd yn fodel heb unrhyw risgiau ariannol sylweddol, na risgiau eraill.

O ran y system fandio gyfredol ar gyfer dyrannu tai (Aur, Arian, Efydd), nodwyd bod yn rhaid i'r bobl hynny mewn bandiau Arian ac Efydd fel arfer aros yn hirach am eu bod wedi'u hasesu'n llai anghenus o ran tai.

Cyfeiriwyd at lwyddiant tai 'modiwlaidd' y Cyngor, ee Court Road. Dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod y tai hynny wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus ac yn fodel arfer da yr oedd Cynghorau eraill yn ystyried ei weithredu, am ei fod yn galluogi Awdurdodau i adeiladu eiddo yn gyflym ond yn effeithlon er mwyn ymdrin yn gyflym â'r pwysau am dai (chwe mis o gymharu â 2 flynedd wrth ddefnyddio dulliau adeiladu tai confensiynol) Byddai'r Cyngor yn ystyried cyflawni'r dull hwn yn rhannau eraill o'r Fro, pan fyddai tir a lleoliadau addas yn dod i'r amlwg.

Cytunai Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod tai modiwlaidd yn garreg camu tuag at dai parhaol, a dywedodd mai llety dros dro yn unig oedd y tai hynny.

O ran natur y tai yn Clare Gardens ac ar safleoedd tebyg, a thai Adran 106, esboniwyd mai cartrefi i deuluoedd oedd y rhain yn bennaf yn hytrach na chartrefi un ystafell wely, ac nad oeddent yn rhan o'r broses o symud pobl allan o lety gwely a brecwast ac ati. Fodd bynnag, ar safleoedd Heol Subway a Windsor, byddai'r cartrefi hyn yn darparu llety i bobl a oedd mewn llety gwely a brecwast a llety dros dro ar hyn o bryd.

Holwyd a oedd gan unrhyw bobl mewn llety gwely a brecwast ac ati ar hyn o bryd gysylltiadau lleol, ac y gellid felly eu hailgartrefu yn y Fro wledig; esboniwyd fod y mwyafrif yn dod o ardal y Barri, a bod unrhyw bobl o'r Bont-faen yn cael y flaenoriaeth i'w cartrefu yn Clare Gardens ac ati.

Ar hyn o bryd, roedd tua 100 o bobl wedi'u crynhoi mewn nifer fach o westai. Roedd LIC yn darparu £2.5m o gyllid bob blwyddyn ar gyfer hyn, ac roedd y cyllid hwnnw wedi cael ei ymestyn hyd fis Mawrth 2023, ond gan ddisgwyl i Gynghorau gael cynllun pontio ar waith i drosglwyddo pobl o lety gwely a brecwast i lety parhaol.

Mewn ymateb i'r cwestiwn a fyddai'r tai newydd a ragwelwyd yn ddigonol ar gyfer y niferoedd presennol o bobl mewn llety gwely a brecwast a llety dros dro (hy, hosteli), esboniodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus y byddai nifer sylweddol o bobl yn y gwestai a'r mathau eraill o lety dros dro yn symud i dai newydd ac felly'n rhyddhau tai llety dros dro i eraill a oedd yn eu cyflwyno eu hunain yn ddigartref. Fodd bynnag, byddai'r angen am swm sylweddol o lety dros dro yn parhau.

Awgrymwyd y gallai'r Cyngor brynu Tadross, ac esboniwyd y byddai gan y Cyngor ddiddordeb mewn prynu adeiladau mwy i gartrefu pobl pe bai'r adeiladau hynny'n cael eu cynnig ar y farchnad. Roedd hon yn ymagwedd yr oedd amryw o Gynghorau yn ei hystyried. Byddai angen i gynlluniau posibl fod yn ariannol hyfyw, er nad oedd hyn yn broblem fel arfer gan fod llety dros dro yn creu enillion rhent uwch.

Pwysleisiwyd bod angen i'r Cyngor wneud mwy o ddefnydd o ofodau ac adeiladau gwag o hyn allan, a dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn ystyried hyn, gan gynnwys unrhyw dir dros ben a oedd yn weddill y gellid ei ddefnyddio ar gyfer unedau modiwlaidd tebyg i gynllun Court Road. Efallai y byddai cyfleoedd eraill yn dod i'r amlwg yn sgil y cynnydd yn y niferoedd a oedd yn gweithio o bell. Gallai hynny ryddhau gofod swyddfa a allai gael ei drawsnewid.

Cadarnhawyd y byddai unrhyw bobl ddigartref mewn llety dros dro yn y band Aur ar y rhestr tai, ond gan fod y niferoedd mor uchel, byddai llawer o gystadleuaeth o hyd am y tai hynny.

Cyfeiriwyd at yr awgrym a wnaed yng nghyfarfod mis Tachwedd gan Swyddog Polisi Tai LIC, sef y dylid cael cynlluniau 'ar y silff' er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer tai dros dro/ar unwaith, a chytunwyd y dylid argymell yn yr adroddiad terfynol i barhau i wneud defnydd o gynlluniau a chyllid o'r fath, yn arbennig ar gyfer datblygiadau tai tymor canolig a thymor hwy.

Dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) yn rhagariannu datblygiadau llety newydd ac yn hawlio hynny'n ôl yn ddiweddarach, drwy'r Grant Tai Cymdeithasol. Roedd hyn yn golygu bod y Fro yn gallu manteisio i'r eithaf ar y Grant Tai Cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw arian llithriant a fyddai ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mewn perthynas â'r ymholiad a godwyd ynghylch systemau blaenoriaeth neu ddyrannu tai a oedd yn cael eu defnyddio yn y Fro a thu hwnt, roedd y Cyngor yn gweithredu system

yn seiliedig ar ddewis (drwy Homes4U) ac Awdurdodau eraill hefyd yn symud drosodd at ymagwedd debyg. Pa system bynnag a fyddai'n cael ei defnyddio, byddai'r Cyngor yn dal i wynebu'r her o ddyrannu adnoddau tai prin. Yn rhan o hyn, roedd hi'n hanfodol rheoli disgwyliadau pobl yn gysylltiedig â thai a byddai'r system TG newydd a fyddai'n cael ei defnyddio gan y Fro yn galluogi pobl i gael adborth am y cynigion yr oeddent yn eu gwneud am dai. Cytunai'r Grŵp ei bod hi'n bwysig i bobl ar restrau tai fod yn llwyr ymwybodol o'r sefyllfa o ran tai, a sut roedd eu band a'u hanghenion yn effeithio ar eu cymhwystra. Hefyd roedd angen cyfeirio pobl tuag at y math cywir o dai ar eu cyfer nhw.

Wrth drafod cefnogaeth i bobl mewn llety dros dro i gynyddu eu cyflogadwyedd ac ati, dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod cymorth yn cael ei ddarparu a bod sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal sawl gwaith yr wythnos i roi cymorth cyflogadwyedd, ac i sicrhau llety parhaol yn y pen draw. Ar bwynt tebyg ynghylch rhoi cymorth i bobl cyn iddynt gael eu hailgartrefu os oeddent wedi bod wedi cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol, esboniwyd bod y cymorth hwnnw ar gael (hy, Roedd Cymdeithas Tai Newydd wedi gwneud gwaith da i ragweld a mynd i'r afael â'r rhesymau dros ymddygiad gwrthgymdeithasol) ac roedd cefnogaeth a rheolaeth ddwys ar gael pan fyddai pobl yn symud i mewn i gartrefi i ddechrau, ond nid oedd yn bosibl gorfodi pobl i ymgysylltu â darparwyr cymorth. Roedd rhai tenantiaid newydd ag anghenion cymhleth a nodweddion bregus, ond roedd 'tai' yn elfen allweddol i'w helpu i adennill eu hannibyniaeth a mynd i'r afael â'u problemau.

Fel argymhelliad yn yr adroddiad terfynol, awgrymwyd y dylid annog gwaith adeiladu drwy'r ymagwedd 'Tai yn Gyntaf' er mwyn helpu pobl a oedd yn ddigartref a grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Dywedodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus fod LIC eisoes yn edrych ar hyn ac nad oedd am i landlordiaid weithredu fel porthoriaid, ond yn hytrach ceisio rhoi pobl mewn llety sicr a diogel, gyda chefnogaeth.

Dylid cynnwys argymhelliad ynghylch rhoi mwy o ddarpariaeth i bobl a oedd yn 'barod am swydd', a mwy o lety modiwlaidd gyda chefnogaeth gofleidiol ddwys, fel y gwelwyd yn natblygiad Court Road. Yn rhan o hyn, awgrymwyd bod angen ystyried sut y gallai'r Cyngor gryfhau ei bolisi ar gyfer tir nad oedd Cyngor Bro Morgannwg ei angen mwyach, fel y gellid rhoi'r flaenoriaeth i ddatblygu tai fforddiadwy arno, ac ystyried a oedd gan gyrff cyhoeddus dir tebyg nad oedd yn cael ei ddefnyddio, i'w ddefnyddio ar gyfer tai.

Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at ddarparu tai i bobl hŷn, lle'r oedd prinder llety o'r fath yn y Fro wledig, o gymharu ag ardaloedd mwy trefol fel y Barri. Yn rhan o hyn, mae'n bosibl y bydd hefyd angen ystyried ymdriniaeth yr Adran Gynllunio â cheisiadau am fflatiau i bobl hŷn y gellid eu hychwanegu at eiddo presennol o fewn y Fro, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, nodwyd bod yr Adran Gynllunio eisoes yn cyflawni proses ar wahân i'r perwyl hwn. Serch hynny, roedd yn rhaid taro cydbwysedd rhwng hyn a'r angen i ystyried dad-ddynodi eiddo a oedd wedi'i neilltuo yn y gorffennol i bobl hŷn (hy, fflatiau un ystafell wely) er mwyn cartrefu pobl ddigartref, yn ogystal â sicrhau cymunedau cytbwys yn sgil y newidiadau hynny. Argymhelliad arall posibl i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol fyddai cynyddu'r llety a ddarperir i bobl hŷn (yn enwedig yn y Fro wledig) ynghyd ag ystyried cyfleoedd i ddad-ddynodi eiddo a neilltuwyd yn flaenorol i bobl hŷn fel bo modd i grwpiau mewn angen wneud defnydd ehangach ohonynt.

O ran rhoi mwy o gymorth 'cofleidiol' i bob math o denantiaid (o'r rhai a gafodd eu cartrefu yn ddiweddar ac a oedd mewn llety dros dro hyd at y rhai a oedd wedi setlo'n fwy ac mewn llety parhaol), argymhellodd y Grŵp y dylai fod modd i denantiaid a oedd angen cefnogaeth a darpariaeth tai, meddygol, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol allu cyrchu hynny mewn mod mwy cyfannol ac amserol, fel bo modd bodloni eu hanghenion yn fwy effeithiol. Gallai tenantiaid presennol gyrchu'r gefnogaeth honno eisoes drwy ffurflen atgyfeirio, ac roedd y rhestrau aros ar gyfer hynny'n gymharol fyr. Awgrymwyd y gellid secondio ymarferwyr o'r gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio alcohol a sylweddau i'r Cyngor er mwyn helpu i roi'r gefnogaeth hon. Cyfeiriodd Rheolwr Gweithredol Tai'r Sector Cyhoeddus at Gyngor Caerdydd fel enghraifft, a'i 'hwb' gofal a chymorth aml-asiantaeth ar gyfer rhai a oedd wedi bod yn cysgu ar y stryd ers cyfnod hir. Gellid addasu'r ymagwedd honno i'w defnyddio o fewn y Fro, a gallai'r Cyngor gysylltu â gweithwyr iechyd i helpu pobl ddigartref nad oeddent wedi cofrestru gyda meddyg teulu.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i Wasanaethau Tai'r Cyngor edrych ar arfer gorau mewn mannau eraill, a nodi astudiaethau achos yn gysylltiedig â helpu pobl ddigartref a thenantiaid ag anghenion cymhleth.

Yn olaf, ailbwysleisiodd y Grŵp bwysigrwydd cyllid ar gyfer tai a mesurau atal digartrefedd, o arian ar gyfer adeiladau newydd ac atal digartrefedd hyd at gyllid byrdymor neu frys, a'r angen am gynlluniau 'oddi ar y silff' y gellid eu defnyddio i gyrchu'r cyllid hwnnw'n gyflym.

## 7. Casgliad

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cwblhau ymchwiliad trylwyr, a chynnig nifer o argymhellion i wella'r gwasanaeth. Er hynny, mae'n amlwg bod angen cyflawni llawer mwy o waith cyn gwneud unrhyw benderfyniadau mawr ynghylch darparu tai a llety i'r digartref ac i breswylwyr eraill ym Mro Morgannwg yn y tymor hwy.

Roedd edrych ar y canlynol yn allweddol i lwyddiant darparu tai ac ymdrin â phroblem barhaus digartrefedd:

- Polisïau dyrannu, gan sicrhau y rhoddir y flaenoriaeth i gartrefu pobl ddigartref a'r grwpiau hynny sydd â'r angen mwyaf, fel pobl sengl o dan 55 oed, ond yr angen hefyd i daro cydbwysedd rhwng hynny ag ymdrin ag anghenion categorïau eraill o breswylwyr yn y Fro, fel pobl hŷn (ee, darparu llety wedi'i addasu neu ei deilwra) a thenantiaid presennol a oedd yn dymuno symud ymlaen i eiddo mwy neu fathau gwahanol o eiddo, gan ryddhau llety un neu ddwy ystafell wely yn sgil hynny, a cheisio mewnbwn gan rai nad oeddent yn swyddogion ynghylch sut i asesu 'rhesymoldeb' wrth ddyrannu tai. Byddai'r pwysau yn sgil COVID-19 a bwriad Llywodraeth Cymru i beidio dychwelyd i'r lefelau digartrefedd ar y stryd a fodolai cyn y pandemig, drwy ymagwedd 'Ailgartrefu Cyflym' a chynllun pontio i symud pobl o lety gwely a brecwast ac ati i fathau mwy parhaol o dai yn golygu pwysau ychwanegol ar dîm Atebion Tai ymroddgar ond cymharol fach y Cyngor, o ran amser, adnoddau ariannol a'r staff, a hefyd yn nhermau dyrannu tai a sicrhau bod y dyraniadau hynny'n

gynaliadwy. Byddai angen mynd i'r afael â hynny. Byddai angen symud niferoedd mawr o bobl sengl o lety dros dro i gartrefi mwy parhaol, yn enwedig yn sgil yr ymagwedd Ailgartrefu Cyflym, gan fynd i'r afael â hynny drwy ystyried amrywiaeth eang o opsiynau tai, yng nghyd-destun tai cymdeithasol a'r sector preifat, ac mewn cydweithrediad â phartneriaid a darparwyr tai cymdeithasol o bob sector er mwyn sicrhau cymunedau llwyddiannus, cynaliadwy, cydlynus a chytbwys.

- Cefnogi ac atal digartrefedd. Ar hyn o bryd mae nifer o wasanaethau'n cefnogi gweithredu'r mesurau hyn, o wasanaeth Atebion Tai y Cyngor a defnyddio'r ymagwedd 'Tai yn Gyntaf, tîm y Sector Preifat a'r Gwasanaethau Cymdeithasol hyd at sefydliadau fel Pobl, Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro, Shelter Cymru a darparwyr tai cymdeithasol fel Cymdeithas Tai Newydd. Byddai angen ehangu ar y rhain, wrth i'r galw gynyddu ac yn sgil penderfyniad LIC i fabwysiadu'r cynllun Ailgartrefu Cyflym.
- Ehangu'r stoc tai, yn enwedig drwy gynnwys tai mwy parhaol a'r mathau o lety sydd eu hangen ar frys. Roedd hyn yn golygu canolbwyntio ar lety i bobl sengl, gan mai dyna'r prif ddemograffeg a oedd angen tai, a'r angen i edrych ar arfer gorau Awdurdodau Lleol eraill, ee y dulliau a fabwysiadwyd gan Gaerdydd ac Abertawe (hy, ail-bwrpasu adeiladau swyddfa ac adeiladau eraill a defnyddio gofodau gwag neu nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach) mwy o gydweithio â'r sector preifat ac RSLs, a'r Cyngor i fabwysiadu dull arloesol o gynyddu hyn i'r dyfodol, fel mwy o gefnogaeth i landlordiaid a dad-ddynodi eiddo a oedd gynt wedi'i neilltuo i bobl hŷn. O ran llety dros dro, roedd angen ystyried sut i gynnwys ac ehangu'r model 'Dulliau Adeiladu Modern' (MMC) o fewn y Fro, er mwyn gallu rhoi llety i'r digartref yn gyflym ac effeithiol.
- Roedd cyllid ar gyfer darpariaeth tai a digartrefedd yn hollbwysig i lwyddiant yr argymhellion a'r awgrymiadau a wnaed yn yr adroddiad hwn, fel parhau i gadw cynlluniau 'ar y silff' er mwyn sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer tai dros dro / ar unwaith, yn rhan o raglen datblygu tai y Fro, hyd at gyllid a chefnogaeth barhaus gan LIC ar gyfer llety dros dro a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) a oedd yn rhagariannu datblygiadau llety newydd ac yn hawlio hynny'n ôl yn ddiweddarach drwy'r Grant Tai Cymdeithasol. Roedd hyn yn golygu bod y Fro yn gallu manteisio i'r eithaf ar y Grant Tai Cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw arian llithriant a fyddai ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 8. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Agored Cymru** | **Agored Cymru: yn defnyddio ymagweddau arloesol a hyblyg i ddatblygu cymwysterau fydd yn bodloni anghenion o ran sgiliau yng Nghymru. Mae rhaglenni prentisiaeth ar gael, sy'n cefnogi cyflogadwyedd a chynnydd dysgwyr yng Nghymru.** |
| **CABCF** | **Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro.** |
| **C1V** | **Cyswllt Un Fro Prif bwynt cyswllt a chyswllt cyntaf y Cyngor i bobl sy'n ceisio gwasanaethau cymorth.** |
| **Dull Ailgartrefu Cyflym** | • **Ffocws ar helpu pobl i gael llety parhaol a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion cymorth eraill ar yr un pryd, yn hytrach nag ar ôl sicrhau'r llety;**<br>• **Dim gofyniad am asesiad 'parodrwydd am dŷ' i dderbyn llety;**<br>• **Cynnig pecyn cymorth a chefnogaeth aml-asiantaeth, wedi'i theilwra'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn lle bo angen;**<br>**Helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref sydd angen lefel is o gymorth, neu heb fod angen cymorth o gwbl ac, wrth wneud hynny, atal anghenion cymhleth neu broblemau cronig, neu eu hatal rhag gwaethygu.** |
| **HMO** | **Tŷ amlfeddiannaeth: yw eiddo a gaiff ei rentu gan o leiaf 3 o bobl nad ydynt o 1 'aelwyd' (er enghraifft o'r un teulu), ond sy'n rhannu cyfleusterau fel yr ystafell ymolchi a'r gegin. Gelwir hyn weithiau'n 'dŷ a rennir'.** |
| **IOM** | **Rheolaeth Integredig ar Droseddwyr: ymateb traws-asiantaeth i'r bygythiad o droseddu ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Caiff y troseddwyr mwyaf cyson a phroblemus eu nodi a'u rheoli drwy waith ar y cyd gan asiantaethau partner.** |
| **LlC** | **Llywodraeth Cymru.** |
| **MAPPA** | **Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd neu MAPPA yw'r broses lle bydd yr heddlu, y gwasanaethau prawf a'r gwasanaeth carchardai yn cydweithio ag asiantaethau eraill i asesu a rheoli troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw, er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag niwed.** |
| **PRS** | **Gwasanaeth Rhentu Preifat wedi'i leoli yng Nghyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro.** |
| **RSL** | **Sefydliadau tai annibynnol - cymdeithasau tai gan amlaf - yw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.** |
| **Tai yn Gyntaf** | **Ymagwedd tai a chymorth yw Tai yn Gyntaf sydd:**<br>• **Yn rhoi cartref sefydlog i bobl sydd wedi profi digartrefedd a chanddynt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cronig, er mwyn iddynt allu ailadeiladu eu bywyd.**<br>• **Yn rhoi cymorth dwys a chyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn benagored.**<br>• **Nid yw'n gosod amodau ar unigolion; ond dylent fod eisiau sicrhau tenantiaeth.** |

| | |
|---|---|
| **VATS** | **Cynllun Tenantiaeth â Chymorth y Fro: Mae VATS yn helpu pobl o gefndir digartref i gael llety, ac yn gweithio gyda landlordiaid ac asiantau gosod i ganfod eiddo, a lleoli pobl ynddynt sy'n gallu fforddio talu'r rent sydd ei angen yn y sector rhentu preifat.** |

## Atodiad A - Aelodau, Swyddogion Cymorth a Chyfranogwyr Eraill

**Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen**
Y Cynghorydd Sandra Perkes (Cadeirydd)
Heather Smith (Cynrychiolydd o’r Gweithgor / Panel Tenantiaid), ac Is-Gadeirydd)
Y Cynghorydd Julie Aviet
Y Cynghorydd Christine Cave
Y Cynghorydd Amelia Collins
Y Cynghorydd Sally Hanks

**Cyngor Bro Morgannwg**
Andrew Cole (Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Ardal Leol, Gwasanaethau Cymdeithasol)
Kate Hollinshead (Arweinydd Tîm Datrysiadau Tai a Chefnogi Pobl)
Howard Humphries (Swyddog Caffael Rhenti Preifat)
Mike Ingram (Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladau)
Heather Iqbal-Rayner (Uwch Swyddog Cyfreithiol)
Ian Jones (Rheolwr Datrysiadau Tai)
Louise Jones (Rheolwr Ymarferwyr, Gwasanaethau Oedolion)
Nick Jones (Rheolwr Gweithredol Tai Sector Cyhoeddus)
Carolyn Michael (Pennaeth Cyllid dros dro / Swyddog A151)
Charlotte Raine (Uwch Gynllunydd / Swyddog Adran 106)
Mark Thomas (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu)
Hedd Wyn John (Cydlynydd Cefnogi Pobl, Gwasanaethau Tai)

**Cyngor ar Bopeth Caerdydd**
Colette Ireland (Uwch Arweinydd Tîm)
Colin Mcinery (Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Rhentu Preifat (GRhP))

**Cymdeithas Dai Newydd**

Oonagh Lyons (Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau)

**Pobl (Darparwr Cymorth Tai a Chymunedol ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg)**

Lorraine Griffiths (Rheolwr Ardal Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Phrosiect George Street Casnewydd)

**Shelter Cymru**

Mark Lawrence (Ymgynghorydd Digartrefedd)

**Llywodraeth Cymru**

Simon Prothero (Swyddog Polisi Tai, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus)

Carl Spiller (Swyddog Polisi Tai, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus)

# Atodiad B: Rhestr wirio ar gyfer Cwmpasu

<table>
<tr><td colspan="2">Grŵp Gorchwyl a Gorffen</td><td>Darpariaeth Tai a Digartrefedd ym Mro Morgannwg</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cadeirydd</td><td>Y Cynghorydd Sandra Perkes</td></tr>
<tr><td>1</td><td colspan="2">Ffocws<br>• Archwiliad o ddarpariaeth tai a digartrefedd fel rhan o'r cyfnod adfer ('Cam 2') y bydd y Cyngor yn ei gynnal oherwydd pandemig COVID-19.</td></tr>
<tr><td>2</td><td colspan="2">Amcanion a Phwrpas<br>• Bydd yr adolygiad yn ceisio ymdrin â meysydd allweddol darpariaeth a pholisïau tai a digartrefedd y presennol ac yn y dyfodol agos – blaenoriaethau dyrannu, heriau neu ddatblygiadau deddfwriaethol a chyllidol sy'n dod i'r amlwg – a chynnig argymhellion ar sut i drin, gweithredu neu wella ar y rhain er mwyn sicrhau y gellir parhau i gynnig llety dros dro a pharhaol i'r digartref unwaith y bydd deddfwriaeth frys LlC yn dod i ben ym mis Medi 2021.</td></tr>
<tr><td>3</td><td colspan="2">Y Canlyniadau a Ddymunir<br>• Deall sefyllfa ariannu bresennol y Cyngor o ran darpariaeth tai a digartrefedd.<br>• Er mwyn deall statws cyfreithiol darpariaeth tai a digartrefedd - yr hyn y gall y Cyngor ei wneud ac na all wneud yn gyfreithiol yn y maes hwn unwaith y bydd deddfwriaeth frys wedi'i dileu a beth fydd effaith bosibl newidiadau o'r fath ar y ddarpariaeth tai a digartrefedd sydd ar waith ar hyn o bryd oherwydd COVID-19.<br>• Adolygu blaenoriaethau dyrannu ynghylch darpariaeth tai a digartrefedd ac awgrymu gwelliannau os yw’n ofynnol.<br>• Adolygu, deall ac awgrymu gwelliannau i’r ddarpariaeth cymorth a chefnogaeth i grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau tebyg er mwyn eu helpu i gael llety parhaol.<br>• Adolygu 'arfer gorau' o awdurdodau lleol eraill a/neu rai tebyg yn ogystal â thystiolaeth bosibl gan dystion 'arbenigol' yn y Cyngor neu'n allanol (fel Shelter Cymru a Chanolfan Cyngor ar Bopeth).<br><br>Os oes amser ar gael, cael y canlyniadau canlynol:<br>• Deall faint o staff ac adnoddau sydd eu hangen ar y Cyngor i ddelio gyda'r heriau hyn.<br>• Adolygu trefniadau llywodraethu presennol.<br>• Adolygu'r rhaglen adeiladu tai bresennol a gwaredu tir neu dir dros ben ar gyfer datblygu tai.<br>• Adolygu’r polisi a’r strategaeth digartrefedd a sut y gellid gwella'r rhain, neu ddatblygu rhai newydd.</td></tr>
<tr><td>4</td><td colspan="2">Gwybodaeth Ofynnol<br>• Deddfwriaeth flaenorol ar ddarpariaeth tai a digartrefedd.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Deddfwriaeth frys ar ddarpariaeth tai a digartrefedd yn ystod COVID-19 (gan gynnwys canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, gwasanaethau tai a landlordiaid cymdeithasol ynghylch COVID-19).<br>• Diwygiadau a newidiadau ar y gweill i Ddeddf Tai Cymru 2014 a'u heffeithiau posibl yn ogystal â heriau sy'n cystadlu o ran cyllid ac adnoddau i Awdurdodau Lleol yn sgil y rhain.<br>• Llythyrau gan Weinidog Tai Llywodraeth Cymru ar ymestyn deddfwriaeth frys ar gyfer COVID-19.<br>• Archwilio Cymru: Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn Sgil Pandemig COVID-19 (Hydref 2020)<br>• Cynllun Busnes Tai.<br>• Strategaeth Atal Digartrefedd 2018-2022 ac adroddiadau monitro.<br>• Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2019.<br>• Strategaeth Adfer Coronafeirws.<br>• Adroddiad Diweddariad Strategaethau Tai.<br>• Rheoleiddio a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thai cymdeithasol a'i gyflenwad.<br>• Gwerthuso'r system dyrannu tai bresennol.<br>• Dadansoddiadau cost ac ystadegol ar ddarpariaeth tai.<br>• Opsiynau cyllido.<br>• Adolygu gwaith ymchwil neu waith a wneir mewn rhannau eraill o'r DU i wella'r ddarpariaeth tai.<br>• Cynlluniau Blynyddol a Gwasanaeth Perthnasol. |
| 5 | **Math o Dystiolaeth**<br>• Adroddiadau briffio.<br>• Cyflwyniadau.<br>• Gwybodaeth gefndirol – Polisïau cyfredol.<br>• Ymweliadau safle.<br>• Ymgynghori.<br>• Cyfweliadau gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a/neu Dystion Arbenigol / Allanol. |
| 6 | **Dulliau i'w defnyddio**<br>• Cyfarfodydd.<br>• Ymweliadau.<br>• Cyfweliadau.<br>• Dadansoddi Ymchwil.<br>• Trafodaethau gyda Thystion Allanol a Swyddogion y Cyngor.<br>• Datblygu Cynllun Gweithredu. |
| 7 | **Tystion Allanol a Swyddogion y Cyngor**<br>• Defnyddwyr Gwasanaeth.<br>• Swyddogion o'r adrannau Tai, Cyfreithiol, Cyllid ac unrhyw linellau gwasanaeth perthnasol eraill.<br>• Cynrychiolwyr o Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro.<br>• Cynrychiolwyr o Shelter Cymru a Pobl.<br>• Cynrychiolwyr o bartneriaid allanol o'r 'gell gydlynol' amlasiantaethol (megis y Gwasanaeth Prawf, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Diogelwch Cymunedol).<br>• Rhanddeiliaid perthnasol eraill i'w pennu drwy gydol yr adolygiad. |

| | |
|---|---|
| **8** | **Amserlenni (gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen)**<br>• Cyfarfod cychwynnol i ystyried cwmpas ac arferion ac opsiynau cyfredol.<br>• Adroddiad terfynol i'w bennu gan y Pwyllgor Craffu erbyn dim hwyrach na<br>Mawrth 2022. |
| **9** | **Adnoddau a Chyllideb**<br>• Swyddogion BM ac amser Aelodau Etholedig. |
| **10** | **Canlyniad**<br>• Cyflwyno argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen er ystyriaeth i'r Pwyllgor Craffu ac, os yw'n briodol, gwneud argymhellion i'r Cabinet. |

## Atodiad C:  Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Amserlen Adolygu

**D.S. Cyfarfodydd i'w cynnal bob ryw chwech wythnos.  Pob cyfarfod a gynhelir i bara tua 2 awr.**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfod 1 | Dydd Mawrth 20 Ebrill 2021 6pm | • Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd<br>• Cwmpas ac Amcanion yr Adolygiad<br>• Amserlen yr Adolygiad |
| Cyfarfod 2 | Dydd Mawrth 1 Mehefin 2021 6pm | • Deall sefyllfa ariannu bresennol y Cyngor o ran darpariaeth tai a digartrefedd.<br>• Er mwyn deall statws cyfreithiol darpariaeth tai a digartrefedd - yr hyn y gall y Cyngor ei wneud ac na all wneud yn gyfreithiol yn y maes hwn unwaith y bydd deddfwriaeth frys wedi'i dileu a beth fydd effaith bosibl newidiadau o'r fath ar y ddarpariaeth tai a digartrefedd sydd ar waith ar hyn o bryd oherwydd COVID-19.<br>• Adolygu blaenoriaethau dyrannu ynghylch darpariaeth tai a digartrefedd |
| Cyfarfod 3 | Dydd Mawrth 13 Gorffennaf 2021 6pm | • Adolygu'r ddarpariaeth cymorth a chefnogaeth i grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau tebyg er mwyn eu helpu i gael llety parhaol.<br>• Ystyried sut i ehangu llety dros dro a mwy parhaol yn y tymor byr. |
| Cyfarfod 4 | Dydd Mawrth 7 Medi 2021 6pm | • Adolygu 'arfer gorau' o awdurdodau lleol eraill a/neu rai tebyg yn ogystal â thystiolaeth bosibl gan dystion 'arbenigol' yn y Cyngor neu'n allanol (fel Shelter Cymru a Chanolfan Cyngor ar Bopeth). |
| Cyfarfod 5 | Dydd Mawrth 19 Hydref 2021 6pm | • Ystyried Cynigion ac Argymhellion |
| Dyddiad i'w gadarnhau. | I'w gadarnhau | • Adroddiad adolygiad i'r Pwyllgor Craffu |

**Pynciau pellach i'w hystyried (os oes amser ar gael):**

- **Deall faint o staff ac adnoddau sy’n ofynnol gan y Cyngor er mwyn delio gyda'r heriau hyn.**
- **Adolygu trefniadau llywodraethu presennol.**
- **Adolygu'r rhaglen adeiladu tai bresennol** a gwaredu tir neu dir dros ben ar gyfer datblygu tai.
- **Adolygu’r polisi a strategaeth digartrefedd.**

**Atodiad D**

Cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 7 achlysur, fel a ganlyn:

- 20 Ebrill 2021
- 1 Mehefin 2021
- 13 Gorffennaf 2021
- 7 Medi 2021
- 19 Hydref 2021
- 14 Rhagfyr 2021
- 9 Chwefror 2022

**Cyllidebau Digartrefedd ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

| | | 2020/21 | 2020/21 | 2021/22 | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Disgrifiad o'r gyllideb** | **Gwariant gwirioneddol gros** | **Gwariant gwirioneddol net** | **Cyllideb Gros** | **Cyllideb Net** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| **Cyllidebau CRT** | | **£** | **£** | **£** | **£** | |
| Tîm Gweinyddu Tai | Prosesu ceisiadau Cartrefi i Chi a darparu swyddogaeth dderbynfa i'r gwasanaeth Tai | 112,401 | 112,401 | 106,541 | 106,541 | |
| Datrysiadau Tai - Cymhelliant i symud | I wella argaeledd eiddo CRT hygyrch | 0 | 0 | 5,000 | 5,000 | |
| Hostel Tŷ Iolo | Gwesty digartrefedd (teuluoedd yn bennaf) | 436,354 | 216,955 | 467,207 | 238,962 | |
| Llety Dros Dro | Eiddo CRT a gedwir ar gyfer llety dros dro | 33,266 | -183,664 | 41,246 | -190,665 | |
| Cartrefi i Chi | Cynllun gosod ar sail dewis | 63,198 | 45,625 | 77,838 | 62,538 | |
| | | | | | | 4.4 |
| **Cyllidebau Tai y Gronfa Gyffredinol** | | | | | | |
| Cyngor Digartrefedd a Thai (Tîm Staffio) | Sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Tai Cymru 2014 (rhwymedigaethau statudol) | 442,097 | 442,097 | 572,398 | 572,398 | 7 |
| Taliadau Llety - Llety Dros Dro | Llety dros dro landlordiaid preifat | 286,958 | 44,288 | 325,000 | 10,000 | |
| Taliadau llety - Gwely a Brecwast | Llety GaB (sy'n cael ei ariannu o Grant Caledi LlC ar hyn o bryd) | 15,374 | 15,374 | 27,164 | 27,164 | 2 |
| Cyllideb Gwario i Gynilo - CTChF | Taliadau rhenti ymlaen llaw i gleientiaid TA | 21,999 | 21,999 | 48,000 | 48,000 | |
| Cyllideb Gwario i Gynilo - Ffioedd Rheoli Cartrefi | Ffioedd ar gyfer rheoli cleientiaid sy'n cael eu lletya dros dro | 106,063 | 106,063 | 100,000 | 100,000 | |
| | | | | | | 10.5 |
| | | **1,517,710** | **821,138** | **1,770,394** | **979,938** | |
| | | | | | | |

**GWARIANT GRANT CALEDI LLYWODRAETH CYMRU: Llety gwesty GaB wedi'i archebu fel bloc ar gyfer cleientiaid digartref <u>2020/21 (Ebrill 2020 - Mawrth 2021)</u>**

Ystafelloedd Gwesty Wedi'u Harchebu fel Bloc £1.266m
Ategolion (gan gynnwys diogelwch / difrod / tacsis) £52k
Incwm Budd-dal Tai a dderbyniwyd ar westai 2020/21
£266k

**<u>21/22 (Ebrill - Medi 2021)</u>**

Ystafelloedd Gwesty Wedi'u Harchebu fel Bloc £1.046m
Ategolion - hyd at 24 Mai yn unig - (yn cynnwys diogelwch / difrod / tacsis) £42k

**GWARIANT A ARIENNIR GAN GRANT CALEDI LLYWODRAETH CYMRU: Gwariant ar westai llety BaG wedi'i archebu fel bloc ar gyfer cleientiaid digartref**

**2020/21 (Ebrill 2020 - Mawrth 2021)**

Ystafelloedd gwestai £1.264m

Incwm Budd-dal Tai wedi'i dderbyn ar westai 2020/21 - £266k

Ategolion £54k

**Dadansoddiad ategolion:-**

Diogelwch £44,972

Landlordiaid preifat £5,918

Prisiau Tacsi £362

Atgyweiriadau / difrod £1,170

"Prydau Nadolig" HIE £975

**Cyfanswm ategolion 2020/21 £53,398**

**21/22 (Ebrill - Medi 2021)**

Ystafelloedd gwestai £1.046m

Ategolion - hyd at 24 Mai yn unig - £44k

**Dadansoddiad ategolion:-**

Diogelwch £38,975

Landlordiaid Preifat £1,200

Prisiau Tacsi £159

Atgyweiriadau / difrod £3,172

**Cyfanswm ategol 2021/22 (hyd at fis Mai) £43,506**